ECO'R WYDDFA

Rhif 219 IONAWR 1996 Pris 25c

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, hysbysebwyr, noddwyr a gweithwyr.

CAE CHWARAE GWERTH CHWEIL



Mae dau o bentrefi'r fro wedi eu goleuo yn ddiweddar, a Chyngor Arfon sydd i'w llongyfarch yn y naill achos a'r llall.

Yn Llanrug llifoleuadau'r cae pob tywydd newydd ar dir Ysgol Brynrefail sy'n disgleirio. Mae'r cae eisoes wedi cael ei agor yn swyddogol, a cheir yr hanes yn llawn ar y dudalen chwaraeon y mis hwn. Talwyd am y cae gan Gyngor Arfon, ac mae'n dda gweld y Cyngor yn buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf ar gyfer y fro hon.

Ac yn Llanberis, goleuadau Nadoligaidd lliwgar sydd wedi bod yn disgleirio yn ystod mis Rhagfyr. Unwaith eto, Cyngor Arfon fu'n gyfrifol am osod a chynnal y goleuadau sydd wedi harddu'r Stryd Fawr ac wedi dod a rhywfaint o liw a chynhesrwydd tymor y Nadolig i'r pentref. Llongyferchir y Cyngor am wneud ymdrech i addurno strydoedd rhai o'r pentrefi eleni, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar Gaernarfon a Bangor.

NADOLIG YN LLANBERIS

ECO'R WYDDFA

Rhif 219
IONAWR 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 1
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 22
Os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	CHWEFROR 1	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	CHWEFROR 29	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 25	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 30	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 27	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 5	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR *ECO* AR GAEL GAN Y CANLYNOL:
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)
DEINIOLEN:
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Draw i Batagonia

Annwyl Olygydd,
Byddwn yn teithio i Batagonia ar wyliau tua diwedd mis Ionawr, ac yn aros yno am fis. Os oes unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco yn awyddus i ni fynd a'u cyfarchion at ffrindiau neu deulu yn y Wladfa, mae croeso iddynt gystylltu â ni yn ystod yr wythnosau nesaf.

Diolch yn fawr,

TED a BEV ANWYL
3 Bro Glyder, Nant Peris
Ffôn: (01286) 871948

Rheolaeth Traffig

Annwyl ddarllenwyr,
Rwy'n ysgrifennu atoch fel myfyrwraig o Lanberis sy'n astudio am radd B.A. yng Ngholeg Metropolitan Leeds.

Ar hyn o bryd rwy'n ymchwilio i reolaeth traffig yn Eryri a'r effaith mae'n gael ar yr amgylchedd, y cymunedau lleol a'r gwahanol ffyrdd o atal problemau traffig. Byddaf yn edrych ar y pwnc o safle'r bobl leol yn ogystal â'r bobl sy'n cynllunio polisïau trafnidiaeth.

Os oes gennych ddiddordeb neu wybodaeth am y maes yma, ac amser am sgwrs, yna cysylltwch â mi. Fe fyddwn yn falch iawn o gael eich cymorth.

Yn gywir iawn,

ANNA ROBERTS
8 Rhes y Faenol, Llanberis
Ffôn: (01286) 871932

Cyfarchion o Harrogate

Gyfeillion y Cwm. A gaf fi eich cyfarch oll trwy gyfrwng yr Eco gyda'm dymuniadau gorau ar gyfer y flwyddyn sydd ar y trothwy. Rwyf wedi bod yn hynod o ffodus o gael dod am dro i'ch plith bob blwyddyn, ond mae'r iechyd wedi torri yn ddiweddar. Mae felly yn anodd rhoi math o addewid. Felly, yn fyr ac yn flêr, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chwi oll.

STAN GRIFFITHS
71 Bramham Drive, Harrogate
(Bro Dawel, Cwm-y-glo gynt)

Ymchwiliad Cyhoeddus Angen Gwybodaeth a Chefnogaeth

Annwyl Olygydd,

Tua wythnos yn ôl cafodd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wybod gan y Swyddfa Gymreig bod bwriad i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus yn yr ardal i ystyried gwrthwynebiad y Cyngor i gais perchennog Cae Goronwy, Fach-wen, i wyro'r llwybr cyhoeddus (llwybr troed rhif 141) sydd yn mynd heibio i'w gartref. Hyd yma nid oes dyddiad pendant wedi ei bennu ar gyfer yr ymchwiliad er bod lle i gredu y bydd yn cael ei gynnal o fewn y mis neu ddau nesaf.

Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r bwriad i wyro'r llwybr gan ei fod yn gosod cynsail ar gyfer rhagor o geisiadau tebyg, gan fod sawl llwybr cyhoeddus arall yn mynd yn agos heibio i gartrefi pobl. Mae whn yn lwybr sydd wedi rhoi pleser i nifer o gerddwyr pell ac agos dros yr holl flynyddoedd ac yn un o'r llwybrau hynny sydd yn cynnig golygfeydd heb eu hail.

Os ydych yn gefnogol i'r Cyngor yn yr achos hwn, buaswn yn falch o glywed gennych. Er mwyn paratoi ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus buaswn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth sydd gennych am y llwybr — ei gefndir a'i hanes; a ydych yn ei gerdded yn aml; eich profiad diweddar a dros y blynyddoedd o gerdded y llwybr; rhestr o'r rhesymau paham y tybiwch chwi na ddylid caniatáu y cais hwn. Hefyd, a fuasech yn barod i gyd-drefnu deiseb yn erbyn y bwriad hwn, neu a wyddoch am gyngor neu gymdeithasau eraill sydd wedi cael y profiad o wrthwynebu cais cyffelyb yn y gorffennol. Byddwn yn falch o unrhyw wybodaeth a all fod o fudd i mi ar gyfer yr ymchwiliad. Hoffwn glywed gan unrhyw un ohonoch, boed leol neu o'r tu allan i'r ardal. Mae croeso i chwi ysgrifennu ataf neu roi caniad ffôn. Dymunaf dderbyn pa wybodaeth bynnag sydd gennych o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn cael digon o amser i baratoi ein gwrthwynebiad erbyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus.

Mae'n holl bwysig ein bod yn rhoi neges clir a plaen yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ein bod fel ardal yn dymuno gwarchod ein llwybrau cyhoeddus sydd yn rhan annatod a phwysig iawn o draddodiad a hanes y fro. Rwyf yn ffyddiog y cawn eich cefnogaeth ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir iawn,

Y Cynhgorydd GLYN TOMOS
Pen y Bwlch, Dinorwig, Caernarfon
Ffôn: (01286) 870576

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

LANSIO ADRODDIAD AR GYFLWR AMGYLCHEDD GWYNEDD

Mike Webb, Cyd-drefnydd Amgylcheddol Gwynedd; Dei Tomos; Cynghorydd Islwn Morris a Ken Latham, Prif Warden Parc Padarn

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi adroddiad swmpus ar gyflwr yr amgylchedd yn y sir. Dyma'r ail adroddiad o'i fath i'r Cyngor ei gyhoeddi. Amcan y gyfrol yn ôl y Cynghorydd Islwyn Morris, Cadeirydd Cyd-weithgor yr Amgylchedd yw 'cyflwyno i'r cyhoedd y wybodaeth sydd ar gael ar amgylchedd Gwynedd mewn un ddogfen, ar ffurf sy'n ddealladwy i'r lleygwr'.

Lansiwyd y gyfrol mewn cyfarfod ar lan Llyn Padarn fore Mawrth, Rhagfyr 5. Gwahoddwyd Dei Tomos i gyflwyno'r gyfrol a gwnaeth hynny yn ddeheuig gan longyfarch y Cyngor am baratoi'r adroddiad a fydd yn ein cynorthwyo i wynebu ein cyfrifoldeb at yr amgylchedd yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r wybodaeth am ansawdd y dŵr, ansawdd yr awyr ac am y tir yng Ngwynedd yn werthfawr dros ben.

Mae'r wybodaeth fanwl a geir yn y gyfrol yn dangos bod y Cyngor yn ymwybodol iawn o'r angen i warchod yr amgylchedd. Mae'n gymorth i sicrhau bod pobl yn gweithredu er diogelu'r amgylchedd yn lleol ac yn fyd-eang.

Wrth sôn am ansawdd yr awyr cyfeiriodd Dei Tomos at y ffaith nad oes gan y Swyddfa Gymreig orsaf fonitro awyr yng Ngwynedd. Mae gorsaf o'r fath ym mhob sir arall. Mae angen gorsaf o'r fath i fesur ansawdd yr awyr er mwyn gweld pa effaith gaiff pethau fel traffig trwm yr haf a diwydiannau megis y rhai sy'n llosgi olew gwastraff ar ansawdd yr awyr.

Hyderai y byddai'r cynghorau sir newydd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan Gyngor presennol Gwynedd. Diolchwyd i Mike Webb, un o awduron yr Adroddiad, am yr holl waith a wnaed.

THEATR BARA CAWS
yn cyflwyno
UN BACH ARALL
gan Twm Miall
FRASER CAINS, BRYN FÔN GWENNO ELIS-HODGKINS EILIR JONES a RHYS PARRY
Cyfarwyddwr: TONY LLYWELYN
Bydd y SIOE GLYBIAU lwyddiannus yma yn ymweld â'r canolfannau canlynol:
IONAWR 19
Gwesty'r Dolbadarn, Llanberis
(Aneurin Jones 870277)
CHWEFROR 1
Glan Gwna, Caeathro
(Bethan Bigwood 678958)
CHWEFROR 13 a 14
Clwb Rygbi Caernarfon
(Clive James 679501 neu 677438)

BRYSIA WELLA, KEITH

Keith, ar y dde yn y llun, gyda Michael un o'i gyd-ddisgyblion yn yr ysgol.

Anfonwn ein cofion gorau a'n dymuniadau gorau at Keith Williams, Bryn, Cwm-y-glo, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd. Gobeithio y caiff ddod adref dros y Nadolig.

Yma, mae Richard Lloyd Jones yn sôn am gêm bêl-droed a drefnwyd i gefnogi Apêl Keith (gweler newyddion Ysgol Cwm-y-glo am fanylion yr Apêl.)

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma bu meddyliau a gweddïau yr ardal gyda Keith Williams o Gwm-y-glo. Mae Keith yn dal i dderbyn triniaeth yn ysbytai Lerpwl. O reidrwydd mae hyn yn golygu fod ei rieni, Margaret a Gwilym, yn gyson wrth erchwyn ei wely ac fe olyga hyn cryn dipyn o gost ariannol iddynt aros yn Lerpwl a gwn fod nifer dda o'r ardal wedi cyfrannu tuag at y teulu hwn mewn sawl modd. Ychydig wythnosau yn ôl roedd Gwil yn dreifio parti ohonom o'r ysgol acw i Gaerdydd i weld gêm Cymru v Almaen ac fe soniodd Gwil am bleser Keith o ennill tocynnau gêm Cymru v Sweden yng nghystadleuaeth rhif 200 yr Eco. Soniais innau am barch Keith o gynrychioli ysgol 'fach' Cwm-y-glo yn Nhlws Pêl-droed yr Eco. Yr oedd ei *'Come-on-Cwm!'* yn siarad cyfrolau. Fel ei dad, mae Keith yn gallu chwarae pêl-droed yn gystadleuol, ond gyda gwên ar ei wyneb. Bydd yr elfennau hyn o'i gymeriad o'i blaid yn awr.

Bu Clwb Pêl-droed Deiniolen yn awyddus i drefnu gêm i godi arian tuag at dreuliau Margaret a Gwil yn Lerpwl ac fe fydd gêm ar faes pêl-droed Deiniolen ar Ŵyl San Steffan (Boxing Day) gyda'r gic gyntaf am 1 o'r gloch. Eisoes trefnwyd y bydd Malcolm a Gavin Allen yn chwarae ac hefyd Marc Lloyd Williams, ac mae'r bechgyn hyn i'w canmol am eu parodrwydd i gymryd rhan. Y mae'n achos teilwng a gobeithir y denir criw sylweddol i'w cefnogi.

Ddydd lau wedi'r Nadolig, 28 Rhagfyr, am 11.30 a.m. ym Methel, bydd gêm rhwng tîm dros 35 Bethel a thîm dewisol. Bydd nifer o gyn sêr yr ardal yn ymddangos yn y gêm hon. Bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa Keith. Cyfle felly i chwi gael tipyn o awyr iach wedi'r pwdin a'r siocled!

'FIRST HYDRO'

Welsoch chi'r erthygl hysbysebu honno gan berchenogion newydd adeilad Amgueddfa Eryri yn *Yr Herald* yr wythnos diwethaf? Gresyn nad oedd y perchenogion newydd — un o'r cwmniau preifat sydd bellach yn rheoli'r busnes trydan — wedi gweld angen am air o Gymraeg ar gyfyl yr erthygl. 'DINORWIG DISCOVER' fydd enw'r adeilad o hyn allan. Siawns na ddefnyddir y fersiwn Gymraeg 'Darganfod Dinorwig', er ei bod yn anodd dychmygu neb ar lawr gwlad yn arddel yr un o'r ddau! Mae'n debyg y bydd yn fwy anodd perswadio'r cwmni i arddel enw Cymraeg arno'i hun, gan ei fod eisoes wedi paentio'r teitl 'FIRST HYDRO' ar ei faniau. Mewn gair — DIM DIGON DA!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**
NGORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
TICEDI LOTERI AR WERTH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Aeth yr holl ysgol i weld cynhyrchiad o 'Dilys a'r Drych Hud' yn Theatr Ogwen, Bethesda, a berfformiwyd gan fyfyrwyr Coleg Menai, Bangor. Mawr oedd yr hwyl a'r pleser a gafwyd ac fe glywyd un plentyn bach yn dweud wrth ei ffrindiau y byddai'n mwynhau mynd yn ôl i'r theatr i gael gweld y 'panto' unwaith yn rhagor.

Cynhaliodd y Cyfeillion eu Ffair Nadolig yn ddiweddar a braf oedd gweld cymaint o rieni a ffrindiau'r Ysgol yn cymryd yr amser i droi i mewn i fwynhau paned a mins pei, gan brynu ambell i beth o'r nifer o stondinau oedd wedi cael eu trefnu. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Y Cyfeillion fu'n gyfrifol hefyd am drefnu'r parti Nadolig i'r plant ar ddiwedd y tymor. Cafodd pob un ohonynt bleser mawr a llond bol o ddanteithion, ac ar y diwedd fe alwodd Siôn Corn i mewn i roi anrheg fechan i'r plantos i aros am y diwrnod mawr. Llawer o ddiolch i'r Cyfeillion am eu cefnogaeth werthfawr unwaith eto.

Anti Janice a merched y gegin oedd yn gyfrifol am baratoi cinio ardderchog i bawb ar ddiwedd y tymor. Fel arfer gwledd a gafwyd ac roedd pawb — plant ac athrawon — yn chwythu wrth ddychwelyd at waith y pnawn.

Uchafbwynt gweithgareddau'r tymnor oedd ein pasiant Nadolig a gynhaliwyd eleni i ddathlu pen-blwydd mudiad UNICEF yn 50. Cynhaliwyd dau berfformiad o'r pasiant, sef un yn y pnawn ac un arall yn yr hwyr. Braf yw dweud fod y neuadd dan ei sang ar y ddau achlysur. I'r perfformiad gyda'r nos daeth cynrychiolydd ar ran UNICEF i fwynhau'r pasiant ac i dderbyn y casgliad ar ran y mudiad. Cyflwynwyd casgliad y pnawn i gronfa Keith Williams, Cwm-y-glo.

Tystysgrifau i ddangos llwyddiant y plant yn y pwll nofio.

Prifathro'r Ysgol yn cyflwyno siec o dros £200 i gynrychiolwyr UNICEF, Ann Fôn a Dafydd Iwan.

Er mor oer fu'r tywydd yn ddiweddar bu'r plant wrthi'n brysur yn dilyn eu gwersi nofio. Cyn diwedd y tymor cafwyd cyfle i geisio am wahanol fathodynnau i brofi eu medrusrwydd. Profodd y mwyafrif ohonynt lwyddiant o 10m hyd at 400m ac aeth rhai ymlaen i gwblhau nifer o weithgareddau penodol yn y pen dwfn — plymio i waelod y pwll i nôl bricsen a'i chario wedyn ar draws y pwll. Llwyddodd y canlynol i ennill tystysgrif a bathodyn wedi iddynt gwblhau'r gofynion — 'Sialens Un': Siân Griffiths, Charlotte Bellis, Cenin Eifion, Melissa Williams, Karen Leadbetter, Nicola Lamerick, Barry Roberts, Nikki Hill, Joe Hill a Katrina Cook. Wedi cwbwlhau'r sialens hon aeth y canlynol ymlaen i gwblhau gofynion 'Sialens Dau': Siân Griffiths, Karen Leadbetter, Charlotte Bellis, Joe Hill a Cenin Eifion.

Er fod y tymor wedi dod i ben aeth côr bychan i lawr i Gaerdydd ar y 23ain o Ragfyr i recordio gyda Bryn Terfel ar gyfer ei raglen Nadolig. Cofiwch wylio'r rhaglen ar noson y Nadolig i weld y plant yn perfformio.

Ysgol Sul Bosra: Pnawn Sul, Rhagfyr 17, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig 'Hon ydyw Stori'r Preseb, Hon ydyw Stori'r Byd' gan aelodau'r Ysgol Sul. Ymwelwyd â deg gwlad a diddorol oedd canfod y gwahanol draddodiadau a chlywed carolau'r gwledydd. Diolchir i'r plant am ddysgu'r gwaith mor dda a hynny ar adeg prysur iawn iddynt ac i'r athrawon. Bu parti Nadolig ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen, bnawn Mercher, 20 Rhagfyr. Do, fe alwodd Siôn Corn a diolchir iddo am ei eiriau caredig i bob plentyn bach. Diolchir hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at y parti.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl at Leslie Jones wedi'i driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir gwellhad buan i chwi Mr Jones. Bu nifer o'r pentrefwyr yn dioddef o'r dwymyn sy'n sgubo'r fro a gobeithir y bydd pawb yn holliach erbyn yr Ŵyl. Anfonir cofion annwyl at Mrs Eluned Porter a Mrs Nellie Roberts, yng Nghartef Y Foelas. Cofion annwyl hefyd at Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, sydd yng Nghartref Pen Gwaith, Llanberis.

Diolch: Dymuna Nancy Williams, 15 Bryntirion, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a rhoddion a phob arwydd o garedigrwydd yn ystod ei phrofedigaeth o golli'i mham yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd: Diolchir i bawb a brynodd ac a werthodd docynnau Raffl y Nadolig. Fe'i tynnir nos Fercher, Rhagfyr 20fed, yn Llygad yr Haul. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth i'r amrywiol weithgareddau yn ystod 1995. Diolchir hefyd i aelodau ffyddlon y Clwb Cant.

Eglwys y Santes Helen: Cafwyd Naw Llith a Charol bnawn Sul, Rhagfyr 17, am 2.30 yng ngofal y Parchg Tegid Roberts.

Bore'r Nadolig, am 9 o'r gloch, gweinyddir y Cymun Bendigaid yng ngofal y Parchg Tegid Roberts. Croeso cynnes i bawb. Dymuna'r wardeiniaid Nadolig dedwydd i bawb.

Urdd Bentref: Rhagfyr 12fed cafwyd noson dechnolegol o wneud gwaith-llaw Nadolig gyda Susan. Diolchir iddi am yr holl baratoi ac am noson ddiddorol. Rhagfyr 19 cafwyd Parti a Disgo i orffen y tymor. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ionawr 9fed 1996, gyda Gêm Chwilen.

Ysgol Feithrin: Dydd Iau, Rhagfyr 14, bu deuddeg o'r plant bach yn perfformio 'Stori'r Geni'. Wedi'r perfformiad bu parti hwyliog gyda Sant y Plant yn galw heibio. Ie, gŵyl y plant bach yw hon! Bydd yr Ysgol Feithrin yn ailgychwyn ddydd Mawrth, Ionawr 9fed 1996. Bydd pedwar aelod newydd yn ymuno. Croeso iddynt.

Pen-blwydd Cyntaf: Dymuniadau gorau i Liam Llewelyn Morgan sy'n dathlu ei ben-blwydd yn un oed ddydd Calan, 1 Ionawr 1996 — oddi wrth Mam, Dad, Kristian a Margaret, Bod Idris, Penisarwaun.

Llongyfarchiadau i Dafydd Evans — y Croeseiriwr — ar ennill gwerth £30 o lyfrau Cymraeg am groesair cywir yn rhifyn mis Hydref o'r cylchgrawn *Barn*. Ddydd Sul, Rhagfyr 10fed, canfu ei fod wedi ennill llyfrau Saesneg yn y papur *Wales on Sunday*. Anrhegion da i'w wraig a'r teulu! Dalied ati!

Dymunir Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda i chwi oll.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

Ffôn: 870605

RITHOEDD CELYN

COED NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF HENOED

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf

LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Aled Jones

Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio

Y GORLAN

FFRWD CAE DDU

BONTNEWYDD

(01286) 830412

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

'Un funud fach . . .'

Newydd Da . . . a Drwg

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed aml i stori newyddion da a newyddion drwg. Y math o stori sy'n dweud am ddyn yn syrthio o awyren, ond roedd ganddo barasiwt, ond ni wnaeth hwnnw agor . . . ac yn y blaen.

Os oes gennych gysylltiad ag ysgol neu eglwys mae'n bosib iawn y byddwch eleni eto wedi gweld drama'r Geni cyn y bydd hi'n fore Nadolig. Byddwch wedi clywed yr angel yn cyhoeddi'r 'newydd da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl'. Y wybodaeth am Iesu Grist yn cael ei eni ym Methlehem oedd y newydd da hwnnw.

Nid newyddion da yn unig oedd gan yr angel. Roedd ganddo newyddion drwg hefyd. Y newydd da oedd bod Ceidwad wedi ei eni. Y newydd drwg oedd bod angen Ceidwad o gwbl. Y newydd drwg sy'n rhoi gwerth arbennig i'r newydd da.

Os nad ydym yn gweld angen am Un i'n gwared oddi wrth ein pechodau, nid yw geni'r Iesu gymaint o newyddion da â hynny i ni. I rai sy'n gwybod eu bod wedi pechu yn erbyn Duw y mae'r sôn am Geidwad yn wir newyddion da.

Doedd dim angen i'r angel dynnu sylw arbennig at y newydd drwg. Roedd y bobl yn ymwybodol o'u hangen am Waredwr. Bu disgwyl mawr amdano ers canrifoedd. Roedd yna bobol fel Simeon a'r angel a'r bugeiliaid o bosibl wedi edrych ymlaen at ddyfodiad y Meseia. Gwyddent yn iawn am y newydd drwg, a gallent werthfawrogi'r newydd da pan ddaeth. Roedd geiriau'r angel yn gysur i bobol a wyddai yn iawn am eu hangen am y waredigaeth a gyhoeddwyd. Gallent lawenhau am fod yr Iesu yn bopeth ar eu cyfer.

Nid felly y mae hi bob amser. Bydd llawer y Nadolig hwn yn meth a gwir lawenhau yn y newydd da am y rheswm syml na welsant bod yna newyddion drwg wedi ei roi amdanom. Ond os gwelsom ein pechod, ac os gwyddom am ein hangen am Waredwr, gallwn ddiolch am y Nadolig a'i oleuni o'r newydd eleni.

JOHN PRITCHARD

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Gwellhad Buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Doreen, merch Mr a Mrs Robin Price, Stryd Newydd, ar ôl triniaeth lawfeddygol.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Barbara Owen a'r plant yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl iawn yn Llanrug.

Yr Urdd: Cafwyd noson olaf y tymor yng nghwmni Nerys Williams a Kath Green. Gwnaeth pob plentyn addurn Nadolig hardd. Diolch yn fawr i'r ddwy ohonynt.

Undeb y Mamau: Daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau i Hafan Elan, Llanrug, i wasanaeth o garolau. Darllenwyd y llithoedd a neges y Nadolig gan rhai o'r aelodau a thraddodwyd y Fendith gan y Parchg Philip Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Anwen Roberts, Llanrug. Croesawyd Mrs Taylor i'r gwasanaeth wedi misoedd o salwch. Mwynhawyd paned a mins pei wedi'r gwasnaeth. Enillwyd y raffl gan Mrs Annie Parry, Mrs L. Pritchard, Mrs M. Lewis, Mrs L. E. Owen, Mrs M. Barlow, Mrs M. Jones, Karen a Sandra Birbeck. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 8, yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo am 7 o'r gloch.

Newyddion o Ysgol Cwm-y-glo: Carem ddiolch yn ddiffuant iawn i holl gyfeillion am ymateb mor arbennig i'r Ffair Nadolig a gynhaliwyd ar Ragfyr 8fed. Trosglwyddwyd tua £700 i deulu Keith. Dengys hyn, yn amlwg, yr ymdeimlad o garedigrwydd ac ewyllys da cymdogaeth glòs a chyfeillgar Cwm-y-glo a'r ardal gyfagos tuag at deulu hynod boblogaidd. Mae Margaret a Gwilym Williams am ddatgan eu diolch cywiraf am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt.

Mae Keith bellach yn derbyn triniaeth yn ysbytai Alder Hey a Clatterbridge yn Lerpwl. Anfonwn ein cofion annwylaf fel ysgol ac ardal iddo ef a'i rieni. Os bydd Keith yn parhau yno dros y Nadolig fe fyddwn yn siŵr o adael i Santa Clôs wybod. Mae'n debyg iawn y bydd ei sach yn orlawn o ddymuniadau da.

Bu Miss Owen o'r Coleg Normal gyda ni ar ymarfer dysgu am y mis diwethaf. Diolch am ei chyfraniad gwerthfawr a'i hymdroddiad a'i hanwyldeb.

Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis

CRONFA KEITH WILLIAMS

Gan fod cymaint o gymdeithasau ac unigolion yn cynnal gweithgareddau i godi arian i Keith – mae cronfa wedi ei hagor eisoes gan Ysgol Cwm-y-glo. Mae croeso i unrhyw un drefnu i drosglwyddo roddion drwy gysylltu â'r ysgol. Os am fwy o wybodaeth y rhif ffon yw:

(01286) 870860

Tachwedd gan Mrs Marjorie Smith, Bro Rhythallt a Mrs Ceri Hughes, Hafan. Y ddwy o Lanrug!

Mrs Menna Jones, Clynnog Fawr (gynt o Gwm-y-glo): Fore Llun, 27 Tachwedd, bu farw Mrs Menna Jones yn sydyn yn ei chartref, 1 Bro Celyn, Clynnog Fawr, yn 74 mlwydd oed. Annwyl briod y diweddar William Owen Jones oedd Menna, a chwaer hoff ei diweddar frodyr a chwiorydd: Heddwen, Glyneth, Carrie, Beti, Gruffydd, Emyr, Dafydd ac Idris; a chwaer-yng-nghyfraith Menna, Grace, Ada, Bessie ac Appy.

Bu'r angladd ddydd Llun, Rhagfyr 4, yn breifat yn y cartref ac yn dilyn yn gyhoeddus ym mynwent Brynaerau, Pontllyfni. Gwasanaethwyd gan y Parchg Ioan Davies, Y Bala, ac fe'i cynorthwywyd gan y Parchg John Glyn, Waunfawr.

Methodd y Parchg Tudur Rowlands, Rhewl (nai) â bod yn bresennol, a derbyniwyd ymddiheuriadau'n ogysgal oddi wrth y Parchg Hywel Davies, Llangefni; a dwy

Eric Madden yn diddori'r plant efo'i straeon.

gyfnither, sef Margaret a Rowena o Lanfairfechan.

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir â theulu Llwyncoed, Cwm-y-glo, ar farwolaeth Fred Owen, gynt o Lwyncoed, a fu farw yn Ne Affrica ar 1 Rhagfyr yn 84 oed. Ymfudodd Mr Owen i Dde Affrica yn 1923 i ennill bywoliaeth yn y gweithfeydd aur.

Plant Ysgol Sul Bosra, Penisarwaun, yn eu gwasanaeth Nadolig 'Hon ydyw Stori'r Preseb . . . Hon ydyw Stori'r Byd.'

Fersiynau Dos + Windows Ar Gael

Gwell na Gwall!

Y SILLAFYDD CYMRAEG

CySill 2.0+

THE WELSH SPELLCHECKER

Am y tro cyntaf erioed gall y rhai sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fanteisio'n llawn ar y dechnoleg prosesu geiriau ddiweddaraf.

Mae CySill 2.0+ yn cynnig gwirydd sillafu a gramadeg sy'n gyfannol â llawer o'r systemau prosesu geiriau mwyaf poblogaidd. Mae'n ddelfrydol ar gyfer swyddfeydd, ysgolion a'r cartref.

Dim ond £45!

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

oddi wrth,
Meicro Talysarn
01286-881307
am eich holl anghenion cyfrifiadurol

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Capel Coch: Cynhelir gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul brynhawn Sul, Rhagfyr 24, am 2 o'r gloch. Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau a chyfeillion yr eglwys i'r gwasanaeth. NI CHYNHELIR oedfa am 5.30 o'r gloch y noson honno.

Bore Nadolig: Cynhelir gwasanaeth yn festri Capel Coch am 9 o'r gloch fore Nadolig. Estynnir gwahoddiad i aelodau eglwysi eraill y pentref i ymuno yn yr oedfa hon. Dowch i ddathlu'r Ŵyl, a chofiwch y byddwn yn dechrau'r oedfa yn gynharach nag arfer —**9 o'r gloch.**

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth, Rhagfyr 5, cafwyd cyfarfod yng ngofal Mrs Mattie Hughes. Cafwyd eitemau gan Barti'r Gymdeithas, a chwis wedi ei drefnu gan Mrs Vera Griffith, a chanwyd carolau. Roedd gwledd wedi ei darparu gan y merched a mwynhaodd pawb eu hunain. Mr Eurwyn Jones a Mrs Carrie Hughes a enillodd y cystadlaethau llinell-goll, a feirniadwyd gan Mr Hugh R. Jones. Diolchwyd i bawb gan Mr Gareth Jones a Mr John Hugh Hughes.

Gŵyl Gerdd Dant 1996: Cynhaliwyd noson garolau yn festri Capel Coch gan Bwyllgor Apêl Llanberis Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon 1996. Croesawyd pawb gan gadeirydd y pwyllgor, Mr Gwilym Rees Parry. Cafwyd eitemau gan Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a Mr Gareth Jones; Côr Meibion Dyffryn Peris, dan arweiniad Mr Arwel Jones a Mrs Hefina Jones; a phlant Ysgol Sul Capel Coch, yn cynnwys unawd gan Manon Evans. Yn ystod yr egwyl cafwyd pwnsh ffrwythau (a wnaed gan Mrs Jane Roberts) a mins peis. Gwnaed elw o £150, a dymunar pwyllgor ddiolch am y gefnogaeth.

Yr Urdd: Daeth gweithgareddau'r tymor i ben gyda'r disgo a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 6. Rhoddwyd anrheg i bob aelod o'r adran. Diolch i William Foulkes am y disgo unwaith eto.

Ysgol Dolbadarn: Diolch i'r rhieni a chyfeillion a gefnogodd y Ffair Lyfrau a gynhaliwyd yn yr Ysgol ar Ragfyr 1. Bu yna brysurdeb mawr trwy'r dydd. Cafodd y plant ddisgo nos Fawrth, Rhagfyr 5. Aeth pawb i Theatr Seilo yng Nghaernarfon ddydd Mercher, Rhagfyr 13, i weld myfyrwyr Coleg Menai yn y pantomeim 'Dilys a'r Drych Hud'. Cyflwynodd y plant eu cyngerdd Nadolig brynhawn Llun, Rhagfyr 11, a nos Fercher, Rhagfyr 13. Roedd holl blant yr Ysgol yn cymryd rhan, a chafwyd amrywiaeth mawr o ganu ac actio: Nadolig y tri mochyn bach; plas Siôn Corn; stori Babwshca; cadwyn o garolau; a Nadolig ar draws y byd. Dymuna llywodraethwyr a rhieni'r Ysgol ddiolch i Mrs Roberts a'i staff am eu holl waith yn paratoi ar gyfer y cyngerdd. Dydd Iau, Rhagfyr 14, paratowyd cinio Nadolig arbennig gan staff y gegin.

Bydd Mr Rhys ap Elwyn yn ymadael â'r Ysgol ddiwedd y tymor ac yn cychwyn ei swydd newydd yn ddirprwy brifathro yn Neiniolen ym mis Ionawr. Diolchwn iddo am ei ymroddiad a'i gyfraniad i waith yr Ysgol yn y dosbarth a'r tu allan, tra bu yma; a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd. Cyflwynwyd rhodd iddo i ddangos ein gwerthfawrogiad.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i blant, rhieni a chyfeillion yr Ysgol.

Llongyfarchiadau: Llongyfarchiadau i Gareth Jones, 27 Dôl Elidir, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

Capel Jerusalem: Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach, o dan lywyddiaeth Mr Hugh R. Jones, cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mrs Vera Griffiths am arferion a dathliadau y Nadolig o'r blynyddoedd cynnar hyd y presennol, gyda darlleniadau yn ymwneud â'r Nadolig. Cafwyd rhagor o sylwadau dros baned o de a bisgedi. Wedi diolch dymunodd y llywydd Nadolig llawen i bawb. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Fawrth 1996.

Awdures yn ymweld â'r plant

Miss Mair Wyn Hughes, awdures nifer o lyfrau plant a ieuenctid, gyda Iwan Morris ac Awen Griffith yn ystod ei hymweliad ag Adran yr Urdd.

Plant Ysgol Dolbadarn yn cael eu gwobrwyo yng Nghonwy yng nghystadleuaeth y Comisiwn Cefn Gwlad a'r CRS am ardd pili-palas a wnaethant yn Ysbyty'r Chwarel.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
Beth am **Fwffe Enwog Nerys**
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **DANNY, NERYS** A'R **STAFF**

CLN
Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio
Penllythyrau,
Cardiau Busnes, ac ati.
Ffotograffiaeth
. . . a llawer mwy
48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn eu cyngerdd Nadolig yr wythnos ddiwethaf.

Undeb y Mamau: Pnawn Mawrth y 5ed o Ragfyr cynhaliwyd gwasanath o Naw Llith a Charolau yn Eglwys St. Padarn. Y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, oedd yr arweinydd gyda Mr Derek Jones yn cynorthwyo. Y gyfeilyddes oedd Susan o'r Ceunant, Llanrug. Cymerodd aelodau Undeb y Mamau ran hefyd yn y gwasanaeth, yn dilyn oedd y te parti Nadolig a chafwyd te arbennig o neis wedi'r aelodau i gyd gyfrannu ar ei gyfer. Diolchodd Mrs Dilys Phillips i'r gwesteion i gyd. Enillydd y raffl oedd Mrs Audrey Evans.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr Rhagfyr oedd £35: Mr J. Pike, 2 Bryn Hyfryd (37); £25: Mrs B. Parry, Plas Eilian (118); £15: M. Thomas, Bon Marche (189); £10: Mrs M. Hellfeld, 6 Rhesdai Victoria (76); £5: Mr W. Edwards, 40 Maes Padarn (152). Pelen eira — £50: Sara Pepper, Cynefin, Brynrefail (22); £50: Mrs M. Jones, 19 Maes Padarn (88). Diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Diolch: Dymuna staff a thrigolion Plas Pen Gwaith, Llanberis, ddiolch o galon i bawb a fynychodd y Ffair Nadolig ac am y rhoddion a dderbyniwyd i wneud y noson yn lwyddiannus.

Diolch hefyd i bawb a fu'n ein diddori drwy gydol y flwyddynac edrychwn ymlaen am y cyngherddau sydd wedi eu trefnu am fis Rhagfyr. Dyma enillwyr y raffl — Alan Bee; A. Pritchard; 76 Maes Padarn; Beryl Jones; Agnes Owen; Mair; Bob; Janice Land; Liz; Joan.

Marwolaeth: Yn Uned MacMillan, Bryn Seiont, ar Ragfyr 1af, bu farw Robert Hughes (Bob), gynt o 7 Stryd Siarlot, gŵr y ddiweddar Hetty a thad Elizabeth, Griff ac Eluned; a thaid Carwyn. Treuliodd y naw mlynedd olaf ym Mangor gyda'i ferch Elizabeth.

Bu'r angladd ddydd Iau, Rhagfyr 7fed, gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel y Graig, Penrhosgarnedd, ac yna yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Eric Jones, ei weinidog; George Emlyn Jones, Mochdre; Arthur Thomas, Llangefni; a John Pritchard, Llanberis.

Dymuna'r plant ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu galar, drwy'r ffôn, cardiau, llythyrau ac ymwelwyr ar eu haelwyd. Bydd y rhoddion er coffadwriaeth yn mynd tuag at Uned MacMillan, Bryn Seiont, ble y cafodd ofal tyner yn ei gystudd. 'Ca'dd yn wiw, yn y *diwedd / Ddyffryn Peris, yn fan ei fedd.'*

Gwerthfawrogiad: Dymuna merched Lleisiau Lliwedd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb. Diolch am y gefnogaeth a gafodd y côr yn ystod y flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n darllenwyr

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Marwolaethau: Yn ystod yr wythnosau diwethaf bylchwyd y pentref ym marwolaeth dwy o'i drigolion oedrannus. Ar Dachwedd 23ain bu far Mrs Ellen Mary Roberts, Bronallt, yn Ysbyty Gwynedd yn 85 mlwydd oed. Bu ei hangladd, preifat yn ei chartref, ar Dachwedd 28ain ac yn dilyn ym mynwent Llanddeiniolen.

Ar Ragfyr 8fed, yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Eryri, bu farw Mrs Eileen Olive Evans, Pant y Buarth yn 82 mlwydd oed. Bu'r angladd preifat yng Nghapel M.C. Brynrefail, ddydd Mawrth, Rhagfyr 12fed, ac yn dilyn ym mynwent y Santes Helen, Penisarwaun.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

Cyngerdd: Nos Iau, Rhagfyr 14eg, yng Nghapel M.C. Brynrefail, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus ar thema 'Seiniau'r Nadolig'. Cymerwyd rhan gan Gantorion Elidir, arweinydd Robin Jones a'r cyfeilydd Wyn Williams; Côr Ysgol Gynradd Bethel, arweinydd Mrs Lowri P. Roberts-Williams, a'r unawdydd Lois Wyn Hughes. Roedd elw'r cyngerdd yn mynd at waith yr Henoed yng Ngwynedd.

Eglwys M.C., Brynrefail: Dyma drefn yr oedfaon am weddill Rhagfyr a Suliau Ionawr 1996 —

Rhagfyr:
24: Dim oedfa
31: Mr David Williams, Bethel (10)

Ionawr:
7: Mr Glyn Owen, Llanwnda (5.30)
14: Mr Richard Ll. Jones, Bethel (5.30)
21: Parchg D. Elwyn Edwards, Caernarfon (10)
28: Mr Hugh Jones, Llanwnda (5.30)

Wedi seibiant dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau ar Ionawr 7fed.

O'r Ysbyty: Dymunwn adferiad buan i Mrs Dilys Jones, Cytir, yn dilyn triniaeth ar ei llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen nos Lun, Tachwedd 20fed, yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Hwn oedd y Cyfarfod Blynyddol ac estynnwyd croeso i Mrs Eira Crocombe fel VCO. Ail-etholwyd y swyddogion i'w gwahanol ddyletswyddau gyda Mrs Gwenllian Edwards yn cynorthwyo'r ysgrifenyddes. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Lowri Roberts-Williams, gan Mrs Eira Crocombe. Paratowyd y baned gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Gwawr Morris. Mwynhawyd y cinio Nadolig blynyddol eleni yng Ngwesty'r Prince of Wales, Caernarfon.

Made to Measure

Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)
a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris am ddim
BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus Llun/Mawrth 25, 26, Rhagfyr na dydd Llun 1 Ionawr
Gwasanaeth Sul ar 24 Rhagfyr a 31 Rhagfyr

Cyfarchion Nadolig

BETHEL

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU

BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y bedair blynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau yn 1996 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Ffoniwch am amcanbris – rhad ac am ddim

NHBC (01286) 671181
(0831) 326160

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670261

BWYDYDD, MELYSION A PHAPURAU NEWYDD

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

ANN A BILLY HUGHES

SIOP TREFLYN BETHEL

Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN

SIOP SGLODION BETHEL

Ffôn: 670760

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Tachwedd – £20: Ceinwen Williams, Cefn Gwyn; £10: Jackie Williams, 1 Post Office Row; £5 yr un: Aled Fôn Roberts, Gwynfryn; Ellen Jones, Glasynys, Tan-y-buarth; Eunice Roberts, 4 Y Rhos; Emyr Jones, Wenallt; Beryl Jones, 25 Bro Rhos; William Parry, 11 Tan-y-buarth; Emlyn Hughes, Bethlyn, Tan-y-ffordd; Goronwy Owen, 18 Cremlyn.

Cantorion Elidir: Nos Sadwrn, 14 Hydref, bu'r Cantorion yn Lerpwl yn cynnal cyngerdd. Fel hyn yr adroddwyd yn *Yr Angor*, papur bro Glannau Mersi, am y cyngerdd:

'Cafwyd cyngerdd safonol dros ben ar nos Sadwrn, 14 Hydref yng nghwmni Cantorion Elidir (o gyffiniau Bethel a'r Felinheli) yn Arfon yn ysgoldy fawr, Bethel, Heathfield Road, Lerpwl. Yr oedd yr ysgoldy fawr yn gysurus lawn a chyflwynwyd y Cantorion i'r gynulleidfa gan Mr David Williams, Bethel (gynt o Waterloo). Mae ef a'i briod, Margaret, yn aelodau o'r Cantorion. Yn wir yr oedd nifer o'r Cantorion wedi byw yn Lerpwl a'r cyffiniau yn eu dyddiau cynnar fel athrawon.

'Croesawyd y gynulleidfa a'r Cantorion gan Dr Rees a mynegwyd diolch diffuant gan Mr W. Meirion Evans. Darparwyd lluniaeth i'r Cantorion gan Mrs Menna Owen a Mrs N. Hughes Parry (Ysgrifenyddion Lluniaeth y Gymdeithas Lenyddol). Arweinydd y noson oedd Robin Jones, gŵr medrus fel cerddor, a brodor o Gwm Penmachno. Cafwyd dwy awr a hanner o ganu eneiniedig ar ymweliad cyntaf Cantorion Elidir â'r ddinas.'

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Fawrth, Rhagfyr 12, cafwyd noson o frethyn cartref i ddathlu'r Nadolig dan ofal y llywydd, Llinos Williams. Cafwyd detholiadau ar lafar ac ar gân gan nifer o aelodau'r gymdeithas ac i gloi cafwyd paned a lluniaeth wedi'i baratoi gan y merched. Cafodd pawb oedd yn bresennol noson gofiadwy.

Casgliad i Blant Bosnia: Nos Fawrth, Rhagfyr 5, yn festri'r Cysegr, cafwyd noson o sleidiau a sgwrs gan Mr Gwilym Williams, Caernarfon, am ei ymweliad â Bosnia. Darlun trist a gafwyd o ddioddefaint a thrallod plant a phobl Bosnia dros y blynyddoedd diwethaf ond cafwyd hanesion hefyd am rai oedd yn gweini arnynt. Casglwyd £75 ar y noson ac fe fydd yr arian yn cael ei anfon i Gymdeithas Plant y Nadolig i'w ddefnyddio i wella byd y plant yn Bosnia a gwledydd tlawd eraill.

Newyddion o'r Ysgol: Mae'r tymor prysur yma bron a dirwyn i ben. Gweithiodd y plant yn arbennig o galed yn ystod y pythefnos diwethaf i ymarfer dwy sioe gerdd – Papapanoff gan y babanod a Babwska gan yr adran iau.

Roedd neuadd yr Ysgol dan ei sang nos Lun a nos Fawrth, 11eg a'r 12fed Rhagfyr, gyda rhieni a ffrindiau yn mwynhau gwledd o berfformiadau gan y plant. Cafwyd ymateb calonogol iawn gan bawb a fu'n gweld y sioeau a gwerthfawrogir y gefnogeth a'r ymateb gan y prifathro a'r staff.

Nos Fercher, 6ed o Ragfyr, trefnwyd Bingo gan y staff dan nawdd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Cafwyd noson hwyliog iawn yn y neuadd orlawn a Mrs Siân Jones yn galw'r rhifau'n broffesiynol iawn! Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb a gyfranodd mor hael at wobrau'r noson.

Nos Iau, y 14eg, ymunod côr yr Ysgol, dan arweinyddiaeth Mrs L. P. Roberts-Williams, â Chantorion Elidir yng Nghapel Brynrefail mewn noson o ganu gyda'r elw tuag at Henoed Gwynedd.

Pnawn Iau mwynhawyd cinio Nadolig a baratowyd gan Anti Eiriona a'r staff. Roedd y platiau gwag yn tystio i'r wledd a baratowyd.

Pnawn dydd Gwener aeth yr ysgol i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Sothach a Sglyfaeth' ac i gloi'r tymor trefnwyd disgo i'r plant yn yr Ysgol nos Lun.

Dymuna'r prifathro a'r staff Nadolig llawen i bawb gan ddiolch am eich cefnogaeth parod drwy'r flwyddyn.

Cyfarchion y Tymor: Dymunir Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i holl drigolion Bethel a'r cylch gan drigolion Cartref Preswyl St. Teilo.

Plant yr Ysgol Gynradd a fu'n perfformio eu sioe gerdd.

O SIAMBAR SELWYN

NADOLIG LLAWEN i chi gyd, a diolch ichi am eich ymateb caredig i gynnwys y Siambar dros y flwyddyn.

Wyddoch chi fod Oliver Cromwell, yn y flwyddyn 1649, wedi diddymu'r Nadolig gan orchymyn iddo fod yn ddiwrnod arferol a phawb i weithio. Os gwelid unrhyw un yn dathlu, fe'i cymerid i'r ddalfa.

Wyddoch chi'r gwahanol anrhegion a enwir yn y gân 'The Twelve Days of Christmas'? Wel, yn 1983 mi fyddai'r holl bethau yna wedi costio £6,277.20. Ys gwn i faint fyddai nhw'n 'i gostio heddiw?

Fe argraffwyd y stamp arbennig cynta' ar gyfer y Nadolig yng Nghanada yn 1898.

Fe anwyd Sir Isaac Newton, Humphrey Bogart a'r Dywysoges Alexandra ar ddydd Nadolig, a bu farw Charlie Chaplin ar ddydd Nadolig.

Mae'r teulu brenhinol yn rhoi anrhegion i'w gilydd ar noswyl Nadolig. Ys gwn i be gaiff Diana 'leni!?

Ia, NADOLIG LLAWEN i chi, ac yn enwedig i chi'r plant.

NOSWYL NADOLIG

Wela i ddim ceirw yn dod dros y bryn,
A chlywa i mo'r clychau yn canu'n y glyn;

Ond mae'r gwynt yn chwipio'r llyn dan y lloer
Gwell i mi swatio ar noson mor oer,

Mae 'na ddyn eira ar ganol y rhos
Yn disgwyl yn eiddgar am Santa Clôs,

Sgarff am ei wddf o, a het ar ei ben
Yn astudio'r sêr sy'n disgleirio'n y nen;

Gwell mynd i gysgu a chael breuddwyd bêr
Am geirw'n carlamu dan drimins o sêr,

Yna deffro'n y bore yn gynnar iawn
A chanfod yr hosan yn fwy na llawn,

A Santa wedi diflannu'n llwyr
Fel y dyn eira. I ble? Pwy a ŵyr.

Allan o *Nadolig, Nadolig* (Gwasg Carreg Gwalch)

DRAENOG

Mar arweinydd Côr Meibion Dyffryn Peris o'r farn fod un o aelodau'r côr yn cuddio ci dan ei got! Daeth hyn yn hysbys yn Ffestiniog yn ystod y mis pan ddychwelodd yr aelodau yn ôl i'r bws a darganfod fod y ci wedi gwagio'i lwyth yn dwt ger sedd y gyrrwr. Dywedodd llefarydd ar ran y côr fod yr arweinydd wedi bod ers tro byd yn ceisio darganfod pwy oedd yn 'slyrio' canu. Ar ôl digwyddiad anffodus 'Stiniog mae'n gwbl argyhoeddedig mai'r ci sy'n udo yn y dirgel!

CARTREF PRESWYL

SANT TEILO

SARON

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff

Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

ŠKODA FELICIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Swyddfa'r Post

SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR Ffôn: 650708

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Allen**, **Anne** a'r staff
Croeso i gwsmeriaid hen a newydd yn 1996

Mae
LLEUFER A NELMA PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
EMRYS OWEN
PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)

- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650253

WELDPAR
CYMRU WALES
8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH **BRIAN, SHIRLEY A TONY**

Mae **Liz a John Whitehead, Anna, Cerys, Margaret a Lisa**
SIOP CHIPS WAUNFAWR
Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn: 650235
Hefyd yn Uned 10, Tir Llwyd, Bae Cinmael Ffôn: (01745) 360445
Offer Diffodd Tân — Masnachol ac i'r Cartref
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân hyn holl, a llawer mwy i'w weld yn ein siop
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth **David** a **Peter Greasley** a'r Staff

SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR
ANTUR WAUNFAWR
Basgedi Blodau Sych ★ Siwtni ★ Jams
Briwgig ★ Siampw ★ Clustogau
Ewyn Baddon ★ Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ Mobiles Pren
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn yr Antur

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed (650556)

Enillwyr Clwb 300 mis Tachwedd — £40: Mr W. M. Catt, Awel y Môr (33); £25: Gladys Greasey, Minafon (88); £10: G. W. O. Coles, 6 Bro Waun (251).

Cronfa Haematoleg a Chymorth Cancr Gwynedd: Daeth Clwb y Mamau, Merched y Wawr a Sefydliad y Merched at ei gilydd i drefnu Noson Goffi nos Wener, Tachwedd 17. Cafwyd gwahanol stondinau a raffl a'r enillwyr oedd: Mrs Hilda Williams; Mrs Helena Edwards; Mrs Joy Glyn; Mrs Alma Jones; Mrs Iris Owen; Mrs C. A. Jones; Mrs Enid Williams; Mrs Annie Thomas; Mrs Rhiain Jones; Mrs Jean Jones. Enwi'r ddoli: Mrs Mair Williams. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gefnogodd y noson ac a'u cynorthwyodd i godi £180 tuag at y Gronfa arbennig hon.

Bedyddiadau: Ddydd Sul, Tachwedd 19, yng nghapel Llanaelhaearn bedyddiwyd Carwyn Tomos, mab bychan Delyth a Phill, Gwylfa.

Yng nghapel Croesywaun ar Dachwedd 26, gyda'r Parchg W. R. Williams yn gweinyddu, bedyddiwyd Siôn Tudur, mab bychan Valmai a Paul Evans, Rhoslwyn, Stad Tŷ Hen.

Gyda'r Parchg Gareth Maelor yn gweinyddu, bedyddiwyd Sioned Vaughan, merch fach Gareth a Judith Jones, Ty'n Twll, yng nghapel Croesywaun fore Sul, Rhagfyr 10.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Joanna a Tony, Fron Hyfryd, ar enedigaeth eu mab bychan, Alun Owain.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Mrs Grace Thomas, Stad Tref Eilian, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd Sharon Owen, Bryn Môr, fydd yn dathlu ei 18 oed ar ddydd Nadolig; ac i Awenna Williams, Garreg Fawr, a fydd yn 18 oed ar ddydd ola'r flwyddyn. Dymuniadau gorau i'r dair ohonoch.

Dyweddïo: Llongyfarchwn Nia Llwyd, Dôl y Coed, ar ei dyweddiad â Garry Griffith o Dre-garth. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

Yn yr Ysbyty: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs M. A. Owen, Bod Afon, Stad Tŷ Hen; Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Stad Bro Waun; Mrs Evans, Tegfan; a Deion Elfryn, Coed Gwydryn, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croesawn Mr Evan Hughes, 3 Tref Eilian a Mr Trefor Beech, Bronallt, adref o'r ysbyty ac rydym yn falch eu gweld yn gwella.

Anfonwn ein cofion at holl drigolion y pentref sy'n gaeth i'w cartrefi ac sydd mewn cartrefi preswyl dros ŵyl y Nadolig.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Elwyn Evans, 11 Dôl Erddi, yn ei brofedigaeth o golli ei fam ym Mrynrefail.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cafwyd gwledd o noson yn y Gymdeithas nos Lun, Rhagfyr 11eg, yng nghwmni Dafydd Iwan, Meira Turner, Alun a Humphrey, o dan arweiniad Eurig Wyn gyda Annette Bryn Parry yn cyfeilio.

Daeth nifer dda o'r aelodau ar waethaf yr oerni, a'r afiechydon oedd yn pœni'r ardal. Diolchwyd i bawb gan Mrs Mary Vaughan Jones. Diolch hefyd i'r aelodau am ddod a mins peis tuag at y lluniaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar lonawr 15, pan fydd Mr R. Gwynn Davies yn darlithio ar 'Hen Gymeriadau'r Waunfawr' gyda Mr T. Arfon Williams yn llywyddu.

Apêl: Ni, drigolion y Waun, fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco a hynny nos lau, Chwefror 1. Byddwn yn dechrau'r gwaith tua 5.30 o'r gloch yn festri Croesywaun. Bydd pob pâr o ddwylo yn help i ysgafnhau'r gwaith felly, os y gellwch, dowch i roi help llaw. Diolch yn fawr.

Chwaraeon: Llongyfarchiadau i Ceirion Williams, Gwerngoed ar gael ei ddewis i chwarae pêl-droed i dîm pêl-droed dan 19 oed Gwynedd.

Casglu Arian: Mae cwsmeriaid Gwesty'r Snowdonia Parc wedi casglu £165 at Ysgol Feithrin y pentref drwy gynnal gêmau pŵl, darts, raffl a loteri, ar noson Plant Mewn Angen. Mae hyn yn dilyn £110 a gasglwyd i Antur Waunfawr gyda rali beics a gynhaliwyd ym mis Medi. Mae'r gwesty'n cael ei weddnewid gan y perchenogion newydd ac mae'r gwelliannau bron wedi eu cwblhau.

Cymdeithas Cymru-Llydaw: Yn dilyn llwyddiant y Bore Coffi yn ddiweddar fe awn ymlaen rŵan i gynnal cwrs undydd Llydaweg — cyflwyniad i'r iaith, addas i ddechreuwyr. Cynhelir y cwrs yn y Ganolfan ar lonawr 27 rhwng 10 a.m. a 4 p.m. Am fwy o fanylion a chofrestru ffoniwch 650578.

Clŵb Pêl-droed: Wel, mae'r brwdfrydedd yn parhau i gynyddu a'r plant wedi cael gêmau cyfeillgar erbyn hyn. Dyma'r canlyniadau — Dan 11: Llanrug 0, Waunfawr 1 — gêm llawn cyffro, a gôl wych gan Dilwyn; Dan 13: Segontiwm 5, Waunfawr 2 — eto gêm dda, a dwy gôl gan Osian. Cafwyd 'twrnameint bach' dan 9 (mae gennym ddigon o chwaraewyr i gynnal 4 tîm 5-pob-ochr!). Roedd hi'n hwyl, ond roedd pawb o ddrifri. Llongyfarchiadau, y tro hwn, i dîm Dylan, Sara, Lisa, Guto a Richard, y buddugwyr.

Cofiwch am barti 'Dolig y Clwb — Rhagfyr 27 yn y Ganolfan. 4-6 p.m.: y plant iau; 6-8.30p.m.: dosbarth Mrs Thomas a'r Ysgol Uwchradd. Darperir bwyd ac adloniant. Rhaid rhoi enw, a thâl o 50c, i Jeff, Brian neu Jina erbyn nos Wener, 22 Rhagfyr. Dymunwn Nadolig llawen i bawb, a dymuniadau gorau i'r timau yn '96.

Dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Cyfarchion Nadolig

Pob hwyl ar Ŵyl y Geni;
Nadolig Llawen ichwi.
Fe awn tros galan os cawn hyn
Yn wyn ein byd eleni.

John H. Hughes

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cyfarchion y Tymor i bawb

GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi
(a phob math o loriau)

Cil-y-mynydd
WAUNFAWR
Rhif Ffôn:
(01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Mr a Mrs Owen

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON

Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YNG NGWESTY'R

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Ty Rhydd ★ Bwyd Cartref ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

★ NOS SADWRN, 23 RHAGFYR, DEFAID ★

CROESO CYNNES I BAWB DROS WYLIAU'R NADOLIG

CHWILOTA

CYNHEILIAID CERDDORIAETH

Mae cerddoriaeth wedi chwarae rhan bwysig iawn ym mywyd y fro hon ers degau o flynyddoedd, a gellir olrhain y traddodiad cerddorol yn ôl am rai canrifoedd. Mae yma o hyd gorau a phartïon a bandiau, ond nid cymaint, o bosib, ag oedd yn bodoli rhwng canol y ganrif ddiwethaf a hanner cyntaf y ganrif hon. Roedd i bob capel a chymdeithas ei gôr neu ei barti canu, ac yr oedd eisteddfodau, cyfarfodydd cystadleuol a buddgyngherddau yn ddigwyddiadau wythnosol bron o fewn gwahanol bentrefi'r fro. Does dim ond eisiau pori drwy ol-rifynnau newyddiaduron y ganrif ddiwethaf i sylweddoli pa mor bwysig oedd cerddoriaeth ym mywyd pobl yr ardal hon.

Sefydlwyd *'concert room'* yn Llanberis i gynnal gwahanol ddigwyddiadau. Roedd Eisteddfod Gadeiriol Eryri yn cael ei chynnal yn y pentref hefyd, a gorymdaith enfawr fel arfer yn cael ei chynnal ar y diwrnod cyntaf yn cael ei arwain gan dri band pres — Llandinorwig, Llanberis a'r Llanrug Royal. Yn yr hwyr cynhelid cyngerdd mawreddog. Roedd *'string band'* yn Nant Peris, ac ar un tro sefydlwyd *'Fife and Drum Band'* yn Llanberis, ond byr fu ei oes. Ar o leiaf un achlysur ymunodd corau'r Waunfawr a Llanberis â'i gilydd er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Môn. Yn Llanrug sefydlwyd y *'National Choral Society'*; yn Ebenezer roedd dau gôr — y *'National Glee Society'* a'r *'Deiniolen Glee Society'*; ac yr oedd *'Choral Society'* wedi ei sefydlu yng Nghwm-y-glo hefyd.

Diddorol fyddai cael yr amser i olrhain hynt a helynt yr holl sefydliadau hyn, eu harweinwyr, eu cyfeilyddion a'u haelodau, heb sôn am fagad o gythreuliaid canu mae'n siŵr! Ond, atgofion mwy diweddar a gawn y mis hwn; atgofion am gorau a sefydlwyd yn y ganrif hon, ond sydd bellach wedi darfod. Mr Llew Hughes o Gwm-y-glo a anfonodd atgofion am gerddor nodedig iawn a fu'n cynnal ac yn hyrwyddo y traddodiad cerddorol yn ardal y Cwm a thu hwnt:

Gŵr a adawodd argraff arbennig iawn ar gerddoriaeth yn ardal Cwm-y-glo a'r cylch oedd y diweddar Mr J. G. Thomas, G & LTSC. Brodor o Feddgelert ydoedd a ddaeth yn brifathro i Ysgol Cwm-y-glo yn 1895, ac a barhaodd yn y swydd hyd ei farwolaeth yn 1929.

Mae'n cael ei gydnabod yn un o gerddorion mwyaf Cymru. Gwnaeth lawer i hyrwyddo canu corawl yn y cylch, a mawr oedd y galw am ei wasanaeth mewn eisteddfodau a chyngherddau. Ef oedd arweinydd y gân yng Nghapel Methodistiaid Cwm, a llwyddodd i greu canu graenus a chaboledig yn y capel. Gan na allai oddef canu di-raen, cofiaf iddo dorri ar draws y canu oedfaol os na fyddai'n hapus gyda'r donyddiaeth. Mewn rihyrsals cerddai o un sedd i'r llall, ac ni fyddai yn fyr o wneud sylw o unrhyw berson oedd yn canu nodau anghywir.

Ar ddechrau'r ganrif ffurfiodd gôr cymysg dros chwe deg mewn rhif, gyda cherddorfa i'w gynorthwyo. Credaf fod hyn yn glod i ardal mor fechan. Cymaint oedd ei ddiddordeb mewn canu corawl, ef oedd un o brif sylfaenwyr 'Gŵyl Eryri' a gynhelid yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon yn flynyddol yn ystod y dauddegau. Gŵyl oedd hon i berfformio'r oratorio 'Messiah' ac i ddilyn gyda'r 'Creation', 'Elijah' a 'Judas Macabeus'.

Cafodd y syniad o gynnal gŵyl gerddorol uwchraddol yn y cylch dderbyniad gwresog, ac aed ati yn ddiymdroi i sefydlu corau mewn gwahanol ardaloedd. Dewiswyd Mr J. G. Thomas i sefydlu côr gydag aelodau o bentrefi Llanberis, Deiniolen, Brynrefail, Llanrug a Chwm-y-glo. Roedd yr ymarferion yn cael eu cynnal yn Festri Capel Cwm-y-glo, a phrofiad hapus a bendithiol oedd i mi gael ymuno â'r côr yn ddeunaw oed, a chael gwerthfawrogi gweithiau cyfansoddwyr enwog. Sefydlwyd hefyd gorau o gylchoedd Caernarfon a Dyffryn Nantlle i ymuno â'i gilydd yn yr Ŵyl. Perfformiad cofiadwy o'r 'Messiah' gychwynnodd yr Ŵyl, gyda cherddorfa lawn, a chantorion safonol yn cymryd y rhannau unigol. Rwy'n cofio enwau dau ohonynt, sef Norman Allen ac Elsie Suddaby. Oes rhywun yn cofio'r gweddill?

Parhaodd perfformiadau llwyddiannus o wahanol oratorio yn flynyddol ond, oherwydd diffygion ariannol, bu'n rhaid rhoi terfyn ar yr Ŵyl.

Trwy ei loyw wasanaeth llwyddodd Mr Thomas i greu diddordeb a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth safonol yn yr ardal. Dyma englyn a ysgrifennwyd iddo, ond nis gwn pwy yw'r awdur:

Prif gerddor ein gororau — ac athro
Hoff gaeth ei rinweddau;
Eryr ei glod a'i werth glau
I'w Gwm glân fel teg emau.

Côr a cherddorfa Cwm-y-glo, 1909. Mae Mr Joseph Thomas, yr arweinydd, yn eistedd ar y blaen gyda'r baton yn ei law.

Côr o Lanrug sy'n cael ei ddwyn i gof gan Mrs G. M. Jones. Darllen hanes ymddeoliad Arwel Jones (golgydd cyntaf yr Eco) o'i swydd yn brifathro a ysgogodd Mrs Jones i sgwennu ychydig o hanes côr ei daid. Mae hen ddywediad, meddai hi, sy'n dweud mai tair cenhedlaeth yn ôl y mae plant yn dechrau cael eu haddysgu, ac mai dilyn yn nhraddodiad cerddorol ei daid a wnaeth Arwel. Dyma sydd gan Mrs Jones i'w ddweud:

Oes rhywun yn cofio Côr Plant Griffith Jones, Minffordd? Byddwn yn llyncu fy nhe bob pnawn Sul ac yn rhedeg i Festri'r Capel Mawr i ymarfer yn ei gôr. Gartref ar yr aelwyd, mewn cyfarfodydd Band of Hope, *ac yng nghôr Griffith Jones y dysgais i ddarllen y sol-ffa. Roedd Annie (merch Griffith Jones), Richie Ellis a minnau yn canu alto. 'Alawon y Bryniau' oedd fy ffefryn, a 'Chân y Gwanwyn', ac mae'r alawon yn dal ar fy nghof hyd heddiw.*

Ar wahân i ddysgu'r Côr Plant roedd Griffith Jones yn arwain y gân yn y Capel Mawr, a byddai'r teulu cyfan yn gwneud cyfraniad sylweddol i Eisteddfod Fawr Llanrug. Byddai gan y teulu gôr aelwyd yn flynyddol — Mem, yr hynaf, yn canu soprano; Ifan a Dic, y ddau frawd, yn canu bas a thenor; ac Annie, yr ieuengaf, yn canu alto. A'r tad yn arwain wrth gwrs.'

Y mis diwethaf bûm yn sôn am draddodiad cerddorol ardal Pontrug cyn cyfnod sefydlu Capel Nazareth yn y Lôn Glai. Roedd Griffith Pritchard, Nantal Gwyn, yn aelod o gôr eglwys Llanrug ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, a'i fab wedi hynny yn arweinydd y côr. Mae'n werth nodi fod y Griffith Pritchard hwn yn un o gyn-deidiau Griffith Jones, Minffordd. Felly, er bod Arwel yn cyfrif ei hun yn un o 'hogia Llanber', mae ei wreiddiau yn ddwfn ym mhlwyf Llanrug.

Y Bachgen Dewr

Awgrymai Mr Glyn Owen yn y rhifyn diwethaf mai T. J. Williams o Fangor oedd awdur y penillion am y 'Bachgen Dewr'. Mae Mr Emyr Jones o Gaernarfon yn cytuno, ond yn amheus a oes llyfr cyflawn o'i waith ar gael. Meddai: 'Mae gennyf gopi o *Llyfr Adrodd Newydd* sy'n cynnwys rhyw ddwsin o gerddi o'i waith ef a John Morris Jones yn bennaf. Mae'n cynnwys geirfa a chyfarwyddiadau i adroddwyr ifanc. Dyma ddiweddglo'r Rhagymadrodd: *"Nid oes gennym ond gobeithio y gwna'r casgliad hwn, fel ei ragflaenor, rywbeth i ddeffro meddyliau plant Cymru, ac i feithrin ynddynt gariad at eu gwlad a'u hiaith."* Cyhoeddwyd y llyfr yn 1910.'

Ond o ddarllen y Rhagymadrodd mae'n amlwg fod llyfr arall wedi ei gyhoeddi cyn hyn. Tybed ai hwnnw oedd y llyfr o waith T. J. Williams? Ynteu ai llyfr ar y cyd oedd hwnnw hefyd? A beth oedd enw'r llyfr cyntaf? Os oes unrhyw un o'r darllenwyr â gwybodaeth, anfonwch ataf.

Dyma gyfres arall o benillion a ddaeth i law gan Mr Glyn Owen, sef hanes y Cybydd a'i Dduw. Yn ôl Mr Owen, mae'n hen gân, a'r awdur oedd Treflwyn o Gaergybi.

Ti gybydd truan ar dy rawd
Er yn gyfoethog, pwy mor dlawd —
Mae arian gennyt braidd heb ri' —
Pwy gaiff eu medd? nid tydi.

A wyt addolwr? Pwy dy Dduw?
Pwy biau'th feddwl, biau'th fyw;
Pwy biau'th bopeth enaid drud;
Pwy biau'th galon, aur y byd?

Mae'th Dduw'n ddisain a'th enaid gwan
Wrth bwyso arno, gyll ei ran;
Syrth ymaith gyda'th galon di
O gyrraedd cyfoeth Calfari.

Gan hynny, tro a gwêl dy ffawd,
A dewis Iesu Grist yn frawd;
A thi gei felly fodd i fyw —
A'th eiddo di fydd eiddo Duw.

GWERSYLL YR URDD 1930

Rai misoedd yn ôl cafwyd atgofion amryw ddarllenwyr am sefydlu canghennau o'r Urdd yn yr ardal, a hanes cystadlu mewn nifer o Eisteddfodau Cenedlaethol — yn bartïon actol, canu ac adrodd. Y mis hwn anfonwyd hanes, a lluniau, un o wersylloedd cyntaf yr Urdd a gynhaliwyd dros drigain mlynedd yn ôl. Roedd geneth o'r Waunfawr, Bessie May Jones, a phedair o enethod o Lanrug yn gwersylla yno, sef Megan Humphreys, Katie Pritchard, Lily Williams (Clark yn ddiweddarach), a Mary Williams, sy'n adrodd yr hanes:

Sefydlwyd adran o Urdd Gobaith Cymru yn Llanrug yn 1924, a bu yn adran lwyddiannus iawn. Yr oeddwn i yn athrawes yn Ysgol Waunfawr a gwahoddwyd fi i ymuno â'r gwersyll yn Llangollen fel swyddog i ofalu am wersyll y genethod.

Ar ôl talu'r swllt am fathodyn yr Urdd, gorfu i mi gael tystysgrif gan feddyg yn dweud 'mod i'n holliach i fynd i'r gwersyll. Cawsom restr o'r dillad oedd yn addas i'w gwisgo — sgert werdd o ddefnydd tew, blows wen a thei coch a gwyrdd, siaced a het ffelt werdd; hefyd wellingtons ac esgidiau cerdded cryf.

Gyda'r trên yr aethom o Gaernarfon, a thrwy Gaer i orsaf Llangollen, ac ymlaen i'r gwersyll — nifer o bebyll yn un o'r caeau mawr o flaen Plas Newydd. Cofiaf yn iawn y pryd cyntaf a gawsom yn y babell fwyta. Roedd y frechdan tua hanner modfedd o drwch, a chorn bîff arni. Nid oedd llawer o'i heisiau arnom, a hithau mor drwchus! Uwd oedd i frecwast a chawl cig oen i ginio. Roedd y bwyd yn faethlon iawn, a digon o lefrith a menyn cartra.

Mr a Mrs Ifan ap Owen Edwards oedd yn gofalu am y gwersyll, a threfnwyd rhaglen am yr wythnos, gan gynnwys mabolgampau, eisteddfod, taith i'r sinema, ymweliad â Glyn Ceiriog, a thaith ddringo i ben Castell Dinas Brân. Roedd digon o hwyl yn yr eisteddfod: coroni'r bardd gyda sosban! Roedd pob pabell yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ffurfiwyd band gan ein pabell ni gyda phob math o offerynnau — crib a phapur sidan, pib geiniog, pwced a morthwyl. Roedd yn orfodol i bawb fod yn eu pebyll erbyn deg o'r gloch y nos — a chadw'n ddistaw! Ar y noson olaf cawsom fynd allan i gyd i gynnal gwledd dan olau'r lleuad.

Roedd yn wythnos ddifyr iawn yn y gwersyll, a doedd y frechdan 'chwaith ddim yn rhy drwchus erbyn y diwrnod ymadael. Roedd pawb erbyn hynny yn cael blas arni!

Holl aelodau gwersyll y genethod y tu allan i Blas Newydd, Llangollen, yn 1930.

Tu ôl i'r genethod mae'r boileri mawr ble roedd y bwyd yn cael ei goginio.

Eirys o Fangor sydd yma yn paratoi jeli ar gyfer gwledd y noson olaf. Lantern beudy oedd yn goleuo pob un o'r pebyll.

Criw Llanrug a'r Waunfawr amser bwyd. Câi pawb blât a chwpan enamel, a gwaith y swyddogion oedd gofalu am roi'r bwyd allan a chlirio ar ôl prydau.

Pryd o fwyd yng Nghastell Dinas Brân. Ymhlith y criw mae Bessie May Jones o'r Waunfawr, a Katie Pritchard a Mary Williams o Lanrug.

Mrs Ifan ab Owen Edwards o flaen y pebyll. Yn ei llaw mae'r 'banc' ble cedwid arian y genethod yn ddiogel.

Ymarfer gogyfer â'r Eisteddfod. Mae offer y band taro ar lawr wrth draed yr arweinydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf aeth 'Chwilota' yn golofn bur swmpus yn yr *Eco*, a hynny yn bennaf oherwydd eich ymateb chi. Mae'n bleser gweld cymaint yn ymddiddori mewn hen hanesion a thraddodiadau'r fro, ac mor barod i roi pwt ar bapur neu i godi'r ffôn gyda thameidiau o wybodaeth. Ond rwy'n siŵr fod degau eraill o ddarllenwyr sydd â mwy o hanesion a hen luniau a fyddai o ddiddordeb ac o fudd hanesyddol. Beth am ichi felly wneud adduned ar gyfer 1996, ac addo cyfrannu neu gysylltu â mi gydag unrhyw wybodaeth, sylw neu ymholiad ynglŷn â hanes y fro.

Gyda diolch i'r cyfrannwyr selog, a chroeso ymlaen llaw i'r rhai newydd. Dyma ddwy dudalen o waith pori i chi dros y Gwyliau.

Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

CALENDR LLANRUG 1996

CALENDR DWYIEITHOG

YN CYNNWYS NIFER O HEN LUNIAU O'R ARDAL

LLINELL WAG AR GYFER POB DYDDIAD I 'SGWENNU MÂN NODIADAU

PRIS: £2.50 AR WERTH YN Y SIOPAU LLEOL neu FFONIWCH (01286) 673515

1

2

NABOD Y STORI

Dyma bump o luniau a fu yn yr Eco yn ddiweddar. Ydych chi'n cofio'r straeon? Anfonwch yr atebion cywir at y golygyddion cyn 22 Ionawr 1996. Bydd tocyn anrheg gwerth £5 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu o'r het.

3

4

5

ATODIAD EISTEDDFODAU 1995

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

(Deiniolen a'r Cylch)

29 Hydref 1995

Beirniaid — Cerdd: Miss Delyth Rees, Llangefni; Adrodd a Cherdd Dant: Mrs Rhiannon Alun Evans, Tre-garth.

ADRODD. Ysgol Feithrin: 1, Laura; 2, Ashley; 3, Gavin, Sophia ac Aron. **Blwyddyn 0**: 1, Bronwen; 2, Sophia; 3, Sioned. **Bl. 1 a 2**: 1, Deborah; 2, Kayleigh; 3, Emma a Manon. **Bl. 3 a 4**: 1, Donna; 2, Chris; 3, Ffion. **Bl. 5 a 6**: 1, Trystan; 2, Emma; 3, Matthew a Lowri. **Parti cydadrodd dan 12**: 1, Siont a Caledffrwd. **Dan 15**: 1, Michelle Louise; 2, Alaw Mari; 3, Jennie Lyn. **15-21**: 1, Einir Gwenllian; 2, Lyndsey Vaughan. **Darllen o'r Ysgrythur i ddysgwyr**: 1, Miss Moeller, Deiniolen; **Adrodd o'r Ysgrythur agored**: 1, Lyndsey; 2, Michelle. **Prif Adroddiad**: Meira Turner. **Cwpan ymgais orau dan 12**: Trystan Morris.

LLÊN. Ysgol Feithrin: 1, Lliam, Gwydion, Zena, Barry, Siôn. **Bl. 0**: 1, Cara; 2, Cara, Sioned, Duke, Natalie, Manon, Sophia. **Bl. 2**: 1, Kayleigh; 2, Iona; 3, Deborah, Dionne. **Bl. 4**: 1, Mark Demicoli; 2, Donna, Llinos, Aletea. **Bl. 5**: 1, Laura; 2, Matthew; 3, Jason. **Bl. 6**: 1, Stephanie; 2, Ffion, Tina, Lowri. **Barddoniaeth dan 12**: 1, Michelle; 2, Stephanie; 3, Nia. **Rhyddiaith dan 19**: 1, Alaw; 2, Jennie. **Medal Lenyddol dan 21**: Einir Gwenllian, Bodorgan. **Stori Fer (agored)** Nant Roberts, Llanrug. **Parodi (agored)**: Valmai Williams, Aberdesach. **Atgofion am siopau pentref Deiniolen (agored)**: 1, Eirlys Williams 2, Hughie Jones. **Limrig (agored)**: Margaret Cynfi Griffiths. **Llinell-goll (agored)**: Mary Wyn Jones. **Cyfansoddi Emyn Priodas (agored)**: cydradd 1, Gareth Davies a Valmai Williams. **Creu brawddeg (agored)**: Eurig Roberts. **Cystadleuaeth y Gadair (agored)**: Eirlys Thomas, Dinbych. **Cwpan ymgais orau dan 12**: Michelle Spaini.

CERDD. Canu: Ysgol Feithrin: 1, Ffion; 2, Manon; 3, Ashley, Gavin, Robyn. **Bl. 0**: 1, Sioned; 2, Sophia; 3, Caryl, Bronwen. **Bl. 1 a 2**: 1, Manon; 2, Bedwyr; 3, Deborah. **Bl. 3 a 4**: 1, Heledd; 2, Ffion; 3, Donna. **Bl. 5 a 6**: 1, Trystan; 2, Ffion; 3, Emma. **Unawd Cerdd Dant dan 12**: 1, Heledd Bryn. **Unawd offerynnol dan 12**: 1, Arwel; 2, Collette. **Unawd piano dan 12**: 1, Rhian Meleri; **Parti canu dan 12**: 1, Parti Marchlyn; 2, Yr Wyddfa. **Unawd dan 15**: 1, Michelle; 2, Elfed; 3, Daryl. **Unawd offerynnol dan 15**: 1, Jennie; 2, Daryl. **Côr neu barti ieuenctid**: Parti Lindsey. **Unawd Cerdd Dant dan 21**: 1, Daryl; 2, Michelle; 3, Lyndsey. **Cân Werin dan 21**: 1, Lyndsey; 2, Michelle; 3, Daryl. **Unawd piano dan 21**: 1, Einir Gwenllian; 2, Lyndsey; 3, Daryl. **Unawd 15-21**: 1, Lyndsey; 2, Sioned. **Canu emyn dôn dros 50**: 1, Gwyn Williams, Rhyl; 2, Katie Wyn; 3, O. Parry. **Unawd offerynnol (agored)**: 1, Jennie; 2, Bethan. **Cân Werin (agored)**: 1, Aled Wyn; 2, Sioned Owen; 3, Wmffra Jones. **Her Unawd (agored)**: 1, Trefor Jones; 2, Aled Wyn; 3, Wmffra Jones. **Cyfansoddi tôn i emyn bedydd**: 1, Valmai Williams, Aberdesach; **Cwpan ymgais orau dan 12**: Heledd Bryn Pari. **Cwpan ymgais orau dan 21**: Einir Gwenllian, Bodorgan.

ARLUNIO. Ysgol Feithrin: 1, Sion; 2, Peri; 3, Benjamin. **Bl. 0**: 1, Aimee; 2, Sophia; 3, Sioned. **Bl. 1**: 1, Gwenllian; 2, David; 3, Naomi. **Bl. 2**: 1, Nidian; 2, Kayleigh; 3, Dionne; **Bl. 3**: 1, Gregory; 2, Christopher; 3, Rachel. **Bl. 4**: 1, Donna ac Iona; 2, Rachel; 3, Llinos. **Bl. 5**: 1, Philip; 2, Emma; 3, Aneurun. **Bl. 6**: 1, Lowri; 2, Michelle; 3, Gavin. **Bl. 7-13**: Lynne Roberts.

GWAITH LLAW. Ysgol Feithrin: 1, Gavin; 2, Manon; 3, Arwyn. **Bl. 0, 1 a 2**: 1, Nidian; 2, Iola; 3, Kayleigh. **Bl. 3-6**: Ffion Thorman Jones. **Bl. 7-13**: Clwb Ieuenctid.

GWAU. Ysgol Gwaun Gynfi: Kayleigh. **Dan 16**: Alaw. **Dros 16**: 1, Diane Jones; 2, Edna Jones; 3, Ellan Williams.

GWNÏO. Ysgol Gwaun Gynfi: Kayleigh. **Brodwaith neu dapestri**: 1, Nancy Marian Williams; 2, Eirlys Williams, Bethan Williams; 3, Jean Moller. **Tegan meddal**: 1, Valmai Williams; 2, Menna Jones.

COGINIO. Dan 8: 1, Kayleigh; 2, Iola; 3, Manon. **Dan 12**: 1, Urien; 2, Trystan; 3, Ffion. **Dan 16**: 1, Elfed Morris. **Dan 21**: Lyndsey; 2, Elena; 3, Bethan. **Swiss roll (agored)**: 1, Gwen Griffiths; 2, Elan Williams; 3, Valmai Williams. **Teisten Arthur (agored)**: 1, Margaret Williams; 2, Janice Land; 3, Eirlys Williams. **Jam cartref (agored)**: 1, Helen Jones; 2, Gwen Griffiths; 32, Nia Griffiths a Margaret Griffiths. **Dynion yn unig**: 1, Glyn Griffiths; 2, Hefin G. Jones. **Gwaith coed**: Neville Th. Jones.

FFOTOGRAFFIAETH. Dan 12: 1, Urien; 2, Trystan; 3, Nidian Jonathan. **Dan 16**: 1, Elfed; 2, Alaw. **Agored**: 1, Colin Williams, 2, Alwyn Williams; 3, Gwen Griffiths.

TREFNIANT BLODAU. Dan 12: 1, Kayleigh; 2, Ffion; 3, Trystan. **Dan 21**: 1, Elfed; 2, Lyndsey; 3, Jennie. **Agored**: 1, Lynda Owen; 2, Menna Jones; 3, Valmai Williams a Nicola Parry. **Cwpan ymgais orau 12-21 oed adran celf a chrefft**: Clwb Ieuenctid. **Cwpan Bryn Du**: Valmai Williams, Deiniolen. **Cwpan Clwb Snwcer**: Neville Th. Jones.

Gwobrwyo Gof Lleol

Dylan Parry

Enillodd Dylan Cadwaladr Parry o Lanberis y wobr gyntaf yn yr Adran Celf a Chrefft yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Bu Dylan, sy'n byw yn 1 Stryd y Wyddfa, yn gweithio fel gof yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis ers deng mlynedd. Ar gyfer y gystadleuaeth gwnaeth fodel o genhinen pedr a'i osod mewn darn o lechen.

Yn ôl Dylan, 'Roedd y syniad am genhinen pedr yn apelio ataf oherwydd y cysylltiadau Cymreig, ac mae mae'r cyfuniad o ddur a llechi yn cynrychioli rhai o'r crefftau cynhenid a gyflwynir yn yr Amgueddfa Lechi.

Mae Dylan wedi llunio llawer o eitemau gwreiddiol ers iddo ddechrau gweithio yn yr Amgueddfa, ac mae rhai ohonynt, fel canhwyllbrennau, seddau a basgedi crôg ar werth yn siop yr Amgueddfa ym Mharc Padarn.

Roedd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa, yn naturiol wrth ei fodd o ddeall am lwyddiant Dylan, yn arbennig o gofio bod crefftwr sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi yn y fro hon wedi dod i'r brig yn Eisteddfod ardal chwarelyddol arall.

Dawnswyr yn dathlu buddugoliaeth

Llongyfarchiadau i Ddawnswyr Caernarfon a fu'n fuddugol yn yr Wŷl Gerdd Dant a gynhaliwyd ym Mhenybont ar Ogwr ym mis Tachwedd. Mae amryw o'r aelodau o fro'r Eco.

PERTHYN

Gwaith buddugol DAFYDD WHITESIDE THOMAS yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Llanrug

Lle gythral ma'r nyrs 'na? Mae hi'n hwyr heddiw. Fydd hi byth yn hwyr fel arfer. Ond dyna fe; mi all hi fforddio bod yn hwyr heddiw, a hithau'n gwybod 'mod i wedi marw.

Mae'n well iddi beidio bod yn rhy hwyr 'chwaith. Mae hi mor brydlon bob amser, a thâl hi ddim iddi ymddwyn yn groes i'w phatrwm arferol. Mae peryg' i amheuon godi. Ond mae'n siŵr fod Gwenfair wedi talu'n dda iddi am ei gwaith. Gobeithio na wnaeth yr Harri Reynolds goblyn 'na ddim styrbio bob dim efo'r gyllell. Sgwn i be wnaiff hi o weld y gyllell?

Dacw'r drws yn agor. Mae hi'n dod i mewn fel arfer.

'Bora da, Mr Rhisiart, noson iawn o gwsg gobeithio?'

Y bitsh ddiegwyddor. Gwybod 'mod i'n gorff yn fy ngwely, a hithau'n siarad efo mi fel petai hi'n ddiwrnod arferol. Ond bitsh glyfar. Rhaid iddi ymddangos yn normal, rhag ofn fod rhywun yn gwrando.

Dydi hi ddim wedi edrych arna'i eto 'chwaith. Mae hi drosodd wrth y bwrdd bach yn tacluso'r moddion. Y botal ffisig yn ei lle. Rŵan 'ta; y gwydr gwag wrth ochr fy ngwely. Yn hwnnw y rhoist ti'r gwenwyn. Wel, mae'n amser ei olchi rŵan, i gael gwared â'r dystiolaeth. Roeddat ti'n rhy glyfar i wneud hynny neithiwr. Dim byd yn wahanol i'r arfer. Cadw at y drefn. Tywallt ffisig i wydr. Ei adael wrth ochr fy ngwely, a gadael y cyfan tan y bore. Dyna'r drefn. Clirio a golchi'r gwydr yw'r gorchwyl cynta'n y bore. Tyrd, nyrs fach, amser clirio.

Mae hi'n gafael yn yr hambwr' bach; yn codi ei llygaid a sbïo arna' i. Iesu! Dyna iti sioc. Dyna imi sgrech gwerth ei chlywed. A'r hambwr' bach yn sgrialu trwy'r awyr. A'r gwydr gwag yn deilchion ar lawr. Nefoedd! Dyna sgrech arall. Mi ddaw'r tŷ i gyd i'r llofft efo'r fath sŵn. Duwadd annwyl, nyrs bach. Mi aiff dy nerfau di'n rhacs fel hyn.

Dim ond cyllell ydi hi. Ond 'doeddet ti ddim yn disgwyl gweld cyllell. Yn enwedig cyllell 'dat 'i charn i mewn yn fy mrest i. Dim ond fi, yn gorff bach marw, taclus. Dyna'r cyfan sydd i fod yn y gwely. Y gwenwyn wedi fy lladd neithiwr. Dim angen post mortem. Roedd hyn oed y doctor yn disgwyl i mi farw o fewn yr wythnosau nesa: y misoedd nesa, fan bellaf. Ond fedrai Gwenfair ddim disgwyl. Roedd hi'n ysgu i gael ei dwylo ar yr arian. Hi a'r llipryn cariad 'na sydd ganddi. Sut medrodd hi dy berswadio di i helpu efo'r gwenwyno? Addo arian, mae'n siŵr. Druan â thi, nyrs fach.

Ond mae'r gyllell wedi ei gwneud hi. Be wnewch chi rŵan? Does dim un doctor yn mynd i arwyddo tystysgrif marwolaeth 'o achosion naturiol' efo clamp o gyllell yn sticio allan o frest yr ymadawedig.

Dyma ni. Mae'r pantomeim ar fin dechrau. Mae dy sgrechian di wedi denu'r gweddill. Dowch, bois bach. Peidiwch â bod yn rhy hwyr. Mae f'enaid i'n brysur adael yr hen gorff 'ma. Gwnewch siâp arni. 'Dwi angen gweld diwedd y sioe cyn gadael am byth.

Nyrs! Be' sy'n bod? Be 'di'r holl sgrechian?

Gwenfair, F'anwylyd ddau-wynebog. Dyma ti wedi cyrraedd. O! mae'n werth gweld dy wyneb di. Ydi wir. Y ddau lygad mawr llo bach yn rhythu. Yr wyneb yn gwelwi! Y dwylo'n llamu dros dy geg. I be? I fygu sgrech? I atal y geiriau rhag tywallt allan yn un llifeiriant euog? Ond mae'n rhaid i ti ddweud rhywbeth.

Be 'da chi 'di 'neud, nyrs? Ddeudis i ddim . . .

Ia, taw pia hi, Gwenfair fach. Rwyt ti angen amser. Amser i hel dy feddyliau at ei gilydd. Amser i newid dy stori. Sgwn i wyt ti wedi sylweddoli y bydd yna bost mortem fŵan. Lladd drwy drywannu. Ond fe ddôn nhw o hyd i'r gwenwyn hefyd. A sut rwyt ti a'r nyrs yn mynd i egluro hwnnw?

Gwenfair.

Dwi'n nabod y llais yna. Y diawl digywilydd. Mae o yma, yn cysgu efo 'ngwraig i. A finna ar fy ngwely angau. Ond be 'di'r ots bellach. Tyrd i mewn y llipryn. Ymuna â'r hwyl. Mae sioe yn gwella bob munud.

Gwenfair. Cariad bach. Be sy'n bod?

Ych â fi. Taswn i'n fyw, mi fyddai'n codi cyfog arna'i. Ond mae hwn fwy o gwmpas 'i betha nag a fyddyliais i.

Nyrs. Ewch i ffonio'r meddyg ar unwaith. A'r heddlu. Deudwch fod Llywelyn Rhisiart wedi ei fwrdro. Rŵan, brysiwch.

Ia, brysia nyrs bach. I mi gael clywed beth fydd gan y rheini i'w ddweud.

Gwenfair. Mae'n amlwg eich bod wedi 'styrbio, cariad bach. (Mwy nag a wyddost ti, Llipryn.) *Ond fe fydd popeth yn iawn; gewch chi weld. Dydi achos llofruddiaeth eich gŵr yn mynd i newid dim arnom ni. Os rhywbeth, fe fydd pethau'n haws bellach. Fydd dim angen i ni guddio'n teimladau.*

Be s'gin ti i ddeud i hynna, Gwenfair? Sut wyt ti'n mynd i egluro iddo fo? Rwyt ti'n ddistaw iawn. Peth diarth i ti. O! Ma'r dagra'n dŵad rŵan, ydy nhw. Ac mi fydd y dagra'n twyllo pawb; pawb ond y fi. A fedra' i ddim dangos mai twyll ydy nhw!

Musus Rhisiart. Musus Rhisiart.

Harri Reynolds! Sut mae gen ti'r wyneb i ddod yma eto'r bore 'ma.

Musus Rhisiart. Y nyrs ddeudodd fod Llywelyn wedi ei fwrdro. A finna'n meddwl mai fi oedd wedi cael newyddion drwg y bore 'ma.

Celwyddgi fuost ti 'rioed, Harri. Sut aflwydd fûm i mor ffôl a dy wneud di yn bartner. Ond mi wyddost yn iawn 'mod i wedi fy mwrdro. Chdi blymiodd y gyllell i mewn i 'mrest i, bore 'ma. Newyddion drwg, wir. 'Tae ti wedi edrych ar ôl llyfra'r ffyrm yn lle galifantio i rasus ceffyla', fyddai'r hwch ddim wedi mynd drwy'r siop. A dy unig ateb di i hynny oedd sticio cyllell yn fy mrest i. Mi fyddai wedi siwtio dy gymeriad di'n well taswn i'n cysgu ar fy mol.

Ond mae'r Llipryn yn rheoli.

Mr Reynolds. Os ydi eich newyddion drwg rhywbeth i'w wneud â Chwmni Mr Rhisiart, efallai ei bod yn well i chi aros nes daw'r heddlu. Mae rhywun yn amlwg efo achos arbennig dros gael gwared â Mr Rhisiart. Fe fydd yr heddlu angen pob cymorth. Na, peidiwch â chyffwrdd mewn dim . . .

Go dda, Llipryn. Mae'n siŵr na wnaeth Harri joban rhy dda o sychu carn y gyllell. Digon posib fod ôl ei fysedd yn dal arni. Helô. Mae rhywun arall ar eu ffordd, ac yn cyflwyno'i hun. Dyn diarth.

Doctor Griffith. Locum yn lle Doctor Evans. Fe ges i alwad gymysglyd iawn gan y nyrs. Rwy'n deall fod rhywun wedi marw?

Does dim angen doctor i ddweud hynny, doctor!

Wnewch chi adael yr ystafell os gwelwch yn dda, i mi gael astudio'r corff.

Corff ydw i gan hwn. Nid Llywelyn na Mr Rhisiart. Jest corff. Boi proffesiynol. Ia, ewch allan i gyd. Gafael di am Gwenfair, Llipryn. Chewch chi ddim cyfle i anwylo'ch gilydd yn hir iawn eto. Paid titha' â phoeni gormod, Harri. Mae gen i rhyw deimlad y doi di'n rhydd o'r drafferth yma hefyd.

Astudiwch chi 'nghorff i'n iawn, doctor. Wrth gwrs, 'mod i wedi marw. Ond fedrwch chi ddarganfod yr achos?

Esgusodwch fi, doctor. Mae'r heddlu wedi cyrraedd.

Hen ŵr bach, blêr. Ac mae'r gweddill yn ei ddilyn i'r ystafell. Y nyrs, ddagreuol. Harri. Llipryn a Gwenfair; y ddau'n gafael yn dynn yn ei gilydd. Brysiwch. Mae pethau'n dechrau mynd yn niwlog i mi, ac rwy'n cael trafferth i glywed popeth yn glir.

Ditectif Ellis, doctor. Rydw i wedi cyflwyno fy hun i'r gweddill y tu allan. Mae'n ymddangos fod Mr Llywelyn Rhisiart wedi ei drywannu i farwolaeth yn ôl yr hyn a ddeallaf? Nyrs; fel hyn y cawsoch chi'r corff y bore 'ma?

Ia, newydd ddechrau clirio'r moddion ar ôl neithiwr 'ro'n i . . . Roedd gweld Mr Rhisiart efo'r gyllell . . .

Yn sioc, wrth gwrs.

Yn fwy o sioc nag wyt ti'n ei feddwl, Ditectif.

. . . ac fe ollyngoch yr hambwrdd, a malu'r gwydr?

Do. Mae'n well i mi ddechrau eu clirio, er mwyn tacluso tipyn ar yr ystafell.

Na'n wir. Gadewch bopeth fel y mae, ar hyn o bryd.

Go dda, rŵan, Ditectif. Duwch, dwi'n dechra closio at hwn.

Musus Rhisiart, dwi'n sylweddoli fod hwn yn amser cynhyrfus iawn i chi, ond rwy'n deall fod eich gŵr yn wael, ac mai dim ond mater o amser . . .?

Waeth i ti ofyn i bostyn y gwely ddim, chei di ddim byd ond dagra' ganddi. A ph'run bynnag, does wiw iddi agor ei cheg ormod, rhag ofn i'r gath ddod allan o'r cwd.

Doctor. Dyda chi wedi cael cyfle i archwilio'r corff? Fedrwch chi roi rhyw syniad i mi pryd y bu Llywelyn Rhisiart farw?

O'r diwedd. Mi fydd yn werth gwylio Harri Reynolds rŵan. O bydd!

Ditectif Ellis; dyma'r achos cyntaf o lofruddiaeth i mi ddelio ag o. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad yw popeth yn ymddangos fel ag y dylent.

Siŵr Dduw, nag ydyn' nhw. Be sy'n normal mewn achos o wenwyno a thrywannu ar yr un diwrnod? Brysia doctor. Ma'r niwl 'ma'n twchu.

Rydw i'n amcangyfrif i Mr Rhisiart farw rhywbryd cyn hanner nos neithiwr.

Be? Ond . . .

Harri! Fe ddylet ti ddysgu peidio bod mor fyrbwyll. Ond rhy hwyr rŵan 'ngwas i.

Mr Reynolds? 'Ond' beth? Oes ganddo chi le i gredu'n wahanol i farn broffesiynol y doctor?

Mae gan Harri Reynolds newyddion drwg all daflu goleuni ar yr holl achos trist hwn.

O! Mi fysa ti'n agor dy hen geg, Llipryn. Diolch am y newyddion drwg, ddeuda i. Heb y rheini mi allai Gwenfair a chdi gael ei traed yn rhydd. Deud wrthyn nhw Harri. Sgen ti ddim i'w golli bellach.

Mr Reynolds?

Fi laddodd o. Doedd y diawl slei, dan-dîn yn haeddu dim arall. Ma'r busnas yn fethiant. Does dim sentan goch, grip ar ôl yn y banc. Mae o wedi godro'r acownt ers blynyddoedd heb i mi wybod, ac wedi 'ngadael i i wynebu'r dyledwyr.

Ac fe ddaethoch chi yma neithiwr i'w ladd o?

Naddo'n tad annwl. 'Ro'n i ar fy nhraed drwy'r nos yn archwilio'r llyfra; a phetha'n mynd yn fwy anobeithiol fesul awr. Ac mi benderfynis i ddod yma ben bore i glirio'r aer efo fo . . .

Dim yn ddrwg, Harri. Mae hi'n swnio'n stori eitha credadwy i mi. Ac mae Gwenfair a'r nyrs wedi'i llyncu hi go-iawn. Dyma'r waredigaeth y bu'r ddwy yn gweddïo amdani ers darganfod y gyllell. Hy! Mae Gwenfair, hyd yn oed, wedi sychu 'i dagra'.

Faint o'r gloch oedd hynny, Mr Reynolds?

Tua'r saith. Mi wyddwn be' oedd trefn y nyrs, a phawb arall yn y tŷ o ran hynny. Roedd gen i awr cyn i'r nyrs ddechra ar ei diwrnod gwaith. Mi ddois i mewn trwy'r drysa gwydr. Roedd Llywelyn yn gorwedd fel arfer yn y gwely. Mi ddeudis i'n syth wrtho fo be' o'n i'n ei feddwl ohono. Ond ddeudodd o ddim byd. Dim ond syllu arna i, efo'r hen olwg falch, hunan-foddhaus 'na ar ei wyneb. Dyna pryd collais fy nhempar. Roedd y gyllell agor llythyra ar y bwrdd, a mi . . . Wel, mi wyddoch y gweddill.

Doedd hi ddim cweit fel'na, Harri. Ond mi wnaiff y tro. Go drapia'r niwl 'ma. Mae o'n llenwir 'stafell. Ond dydi o ddim i'w weld yn cael effaith ar neb arall 'chwaith. Be ddeudodd y ditectif 'na rŵan?

. . . dim gwaed, Mr Reynolds. Ddaru o mo'ch taro chi'n od ar y pryd? Doctor, efallai y medrwch chi egluro.

Pe bai cyllell yn cael ei thrywannu i frest person — fel yr honnwch chi, Mr Reynolds — fe fyddai gwaed yn tasgu allan. Does dim gwaed o gwbl ar gorff Mr Rhisiart. Does dim defnyn o waed ar y dillad gwely 'chwaith.

Yn hollol, doctor. Trywannu corff marw ddaru chi, Mr Reynolds. Roedd y gwaed o fewn y corff wedi hen geulo erbyn i'ch tymer chi gael y gorau arnoch.

Dydw i ddim yn llofrudd, felly . . .

Ond fe fu llofruddiaeth. Mae'r lliw o dan, ac o amgylch y gwefusau yn awgrymu gwenwyn o rhyw fath. Fe fydd angen post mortem, wrth gwrs. Ac fe fydd angen dadansoddi'r gwahanol foddion a gâi Mr Rhisiart at ei salwch. Gan gynnwys gweddillion y gwydr sydd wedi torri.

Ac mi gliriodd y niwl jest digon i mi weld Gwenfair yn llewygu, a'r Llipryn yn rhy llipa i fedru ei dal rhag taro'i phen yn y llawr. Dim yn rhy galed gobeithio. Mi faswn i'n licio dod yn ôl i'w gweld yn yr achos llys.

Y FFRAE

Stori fuddugol EMMA LLOYD DAVIES enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llanrug

'Mam!'

'Ie?'

'Dwi'n feichiog.'

Bu distawrwydd o feddwl am enyd yna trodd mam ei chefn ar ei merch ac ailddechrau golchi'r llestri. Ceisiodd Heledd eto.

'Mam, mae'n wir, dwi'n feichiog.'

'Heledd, os na fedri di feddwl am jôc fwy digri yna cer i wneud dy waith cartref.'

'Nid jôc yw hyn mam. Mae gen i ganlyniadau'r prawf fan hyn.'

Trodd ei mam yn araf nes bod ei llygaid llwyd-wyrdd yn taro ar wyneb ei merch. Gallai Heledd deimlo'r straen ar wyneb ei mam wrth iddi geisio'r gorau glas i oroesi'r tymer a gorddai yn ei stumog. Syllodd ar wyneb ei merch am eiliad tragwyddol, ond roedd Heledd eisoes wedi penderfynu nad oedd am deimlo'n euog am yr hyn a ddigwyddodd bron i fis yn ôl. Gwyddai fod yr hyn a wnaeth hi'n ddrwg, ond roedd wedi digwydd. Bellach doedd dim troi'n ôl, roedd hi'n amser i'w mham wynebu'r ffaith nad plentyn mohoni nawr ond merch ifanc bron yn ddeunaw oed.

'Wel,' torrodd llais ei mham fel cyllell drwy'r distawrwydd oer, 'pwy yw'r tad?'

Gwingodd Heledd ychydig. Nid dyna'r cwestiwn cyntaf a ddisgwyliai i'w mham ofyn iddi. Roedd am i'w mham gyd-ymdeimlo â'r sefyllfa gan ddweud y byddai'n sefyll wrth ei hymyl bob cam o'r ffordd. Roedd am iddynt eistedd i lawr gyda'i gilydd a thrafod ac yna, ar ôl cael dealltwriaeth ei mham, byddai'n dweud wrthi am y tad. Ond na, dylsai fod wedi gwybod yn well, ei mam oedd yn sefyll wrth y sinc ac nid ei thad, o byddai Tada wedi deall i'r dim. Ai ei bai hi, y ddynes 'na yn y ffedog binc afiach, oedd bod Tada ddim yma nawr. Ie, ei bai hi, a neb arall.

'Wel?'

'James . . . ia . . . James, James Ward,' poerodd y geiriau o'i cheg ac ynddynt roedd holl gasineb ac aniolgarwch ei bywyd tuag at y person yma a oedd wedi'i blagardio yn ddiddiwedd am yr undeg saith blynedd y bu hi byw. Pam, am unwaith yn ei bywyd, na allai hi faddau a'i helpu hi?

'O!'

Dyna'r oll oedd ganddi'i ddweud. Nid James oedd y person gwaethaf ar y blaned, gallai fod wedi gwneud yn llawer gwaeth. Ond na, ym marn ei mham rhaid mai James oedd y gwaethaf oherwydd nad oedd eu teulu hwy yn mynychu'r capel yn rheolaidd bob dydd Sul, a theulu James ddim hyd yn oed yn aelodau. O gil ei llygaid gallai weld ei mham yn tynnu siâp croes yn yr awyr o'i blaen.

Yna, fe ffrwydrodd ei mham a daeth popeth yr oedd hi wedi ceisio'i ddal yn ôl allan mewn un rhibi-di-rhes ddi-baid . . . 'Y plentyn anghyfiawn, budur, aniolchgar iti, ers pryd wyth ti'n gwybod? Ers faint wyt ti wedi

bod yn ein twyllo ni y 'sglyfath?'

Gwyddai Heledd yn well na cheisio tarfu ar lais crebachlyd ei mham yn gwingo a gweiddi arni. Safodd yn ei hunfan gan baratoi ei hun am weddill y ddarlith.

'Wel, beth wyt ti'n fwriadu ei wneud? Mae James, wrth gwrs, am dy briodi di?'

'Fy mhriodi i! Nac ydi siŵr, a beth sy'n gwneud i chi feddwl fy mod i eisiau ei briodi o?'

'Dim, ond mae'n rhaid i ti nawr, cyn i'r babi gael ei eni.'

'Mam, dydw i ddim eisiau priodi James, na neb arall, ydych chi'n deall?'

'Heledd! Rwyt ti wedi pechu yn erbyn Duw, yn erbyn dy deulu ac yn erbyn dy gymeriad. Ceisia wneud rhywbeth i achub dy deulu rhag y darostyngiad mawr sydd yn ei hwynebu.'

Yn dy wynebu di wyt ti'n ei feddwl, meddyliodd Heledd.

'Dydi James ddim yn gwybod eto,' meddai. 'Dim ond bore 'ma y cefais i ganlyniadau'r prawf. Pan fydd James yn gwybod 'wn i ddim beth fydd ei ymateb. Dydw i ddim am wthio fy hun ar James am weddill fy mywyd, hyd yn oed os yw hynny'n golygu y bydd gen i blentyn gordderch, ac os yw James am aros gyda'i blentyn yna bydd hynny'n iawn gennyf i. Nid oes gen i gywilydd o'r hyn a ddigwyddodd mam. Fy mai i oedd e a bai neb arall.'

'Paid a meiddio siarad felly yn y tŷ yma, ti'n deallt. Mae gen ti lot i'w ddysgu, a'r ffordd galed wyt ti'n mynd i ddysgu, mae hynny'n glir, fy merch i.'

'Dim mwy mam, plîs. Dim mwy, mae heddiw wedi bod yn ddiwrnod caled i mi hefyd.'

'Mi wn i hynny, ond 'dwyt ti ddim yn symud o'r fan yma nes iti benderfynu beth i'w wneud efo'r babi.'

'Rydw i wedi dweud, mam, rwyf am ei gadw fo.'

'Wnei di ddim magu plant ar ein haelwyd ni, rhaid iti gael cymaint â hynny'n glir yn dy ben gwag.'

Roedd hi'n amlwg nad oedd terfyn i'r ddadl. Ei mham wirion â'i chred ffug yn yr hyn a alwai'n 'Dduw'. Roedd ganddi hi dduw hefyd ond nid oedd rhaid mynd i'r capel i addoli'r duw hwn. Ei duw hi oedd e, a gallai ymddiried ynddo yn rhywle, rhywbryd.

Yn ddistaw a di-gynnwrf, trôdd ei chefn ar ei mham a chychwyn i fyny'r grisiau. Pob cam a phob ris fel pebai'n gyflawniad enfawr wrth iddi symud yn bellach ac yn bellach oddi wrth ei mham. Ysai am gael cyrraedd y pen, heb glywed gwaedd yn ei galw'n ôl. Er mawr syndod iddi ni ddaeth y waedd a thrôdd Heledd y clo yn ddiolchgar yn nrws ei llofft. Yfory fe wyddai'n iawn beth oedd yn rhaid iddi 'i wneud. Byddai'n ffonio James ac yna'n cael swydd. Nid oedd angen i'w mham boeni, roedd ganddi dipyn o arian wedi ei gynilo. Nid ar yr aelwyd hon y byddai'n magu ei phlant hi.

ELFED MORRIS, Llechwedd, Deiniolen, â chwpan a enillodd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

EISTEDDFOD BETHEL

Trefnodd y pwyllgor noson o ddawnsio gwerin a disgo i gychwyn gweithgareddau'r Eisteddfod am eleni. Arweinydd y noson oedd Sian Harris a'r beirniaid oedd Gwen Lasarus, Felinheli (disgo) a Heulwen Evans, Penisarwaun (gwerin). Dyma'r canlyniadau:

DISGO. Grŵp Bl. 6 ac iau: Parti Gemma. **Grŵp Bl. 7-13:** Calonnau Coch. **Unigol Bl. 6 ac iau:** 1, Manon Davies; 2, Gwenno Thomas; 3, Sarah Williams. **Unigol Bl. 7-13:** 1, Elen Robinson.

PARTÏON DAWNSIO GWERIN. Bl. 6 ac iau: 1, Huw ac Angharad; cyd. 2, Heulwen a Ceri, Gethin a Lisa. **Bl. 7-13:** 1, Parti Owain a Gwenan; 2, Lois a Ffion. **Enillydd y Tlws:** Manon Davies.

Hyfforddwyd y grwpiau disgo gan Miriam Thomas a'r partïon gwerin gan Sian Harris a Ruth Jones. Diolchodd Goronwy Jones, llywydd y pwyllgor, i bawb am gefnogi'r noson.

Cawsom Eisteddfod hapus a hwyliog eto eleni a'r drefn wedi newid i ddau gyfarfod, sef plant yr Ysgol Gynradd yn y prynhawn a'r Ysgol Uwchradd yn yr hwyr. Y beirniad oedd – Cerdd: Edward Morus Jones, Llandegfan; Llên a Llefaru: Iolo Huws-Roberts, Waunfawr; Clef: Mrs Rhian Ellis Owen, Llandwrog; Cyfeilyddion: Manon Gwynedd, Glenys Griffiths, a Deilwen Hughes; Arweinyddion: Ellen Ellis, Geraint Elis, Goronwy Jones, Iorwerth Williams a Mair Read. Dyma'r canlyniadau:

CERDD. Ysgol Feithrin: 1, Angharad; 2, Siôn; 3, Ela. **Bl. 0:** 1, Marged; 2, Ceri; 3, Iona. **Bl. 1 a 2:** 1, Berwyn a Ceri; 2, Dewi a Leah; 3, Aled a Despina. **Bl. 3 a 4:** 1, Gwenan; 2, Huw a Manon; 3, Rhys. **Bl. 5 a 6:** 1, Gwenno; 2, Lois a Gwen; 3, Sarah Louise. **Piano bl. 1, 2 a 3:** 1, Manon. **Piano bl. 4, 5 a 6:** 1, Huw; 2, Cefin a Ffion; 3, Gwen a Sarah Louise. **Parti canu bl. 1, 2 a 3:** 1, Parti Zoe; 2, Parti Berwyn. **Bl. 4, 5 a 6:** 1, Parti Huw; 2, Parti Ffion. **Offeryn heblaw'r piano bl. 1-6:** 1, Cefin a Sarah Louise; 2, Gwenno a Ffion. **Tlws Cerdd Ysgol Gynradd:** Gwenno Thomas.

LLEFARU. Ysgol Feithrin: 1, Ela a Siôn; 2, Angharad; 3, Sioned. **Bl. 0:** 1, Ceri; 2, Iona; 3, Marged. **Bl. 1 a 2:** 1, Ceri; 2, Lea; 3, Berwyn. **Bl. 3 a 4:** 1, Manon; 2, Nia Glyn; 3, Huw a Gwion. **Bl. 5 a 6:** 1, Lois; 2, Ffion Owen; 3, Gwenno. **Ymgom Bl. 1-6:** 1, Mali a Modlen (Ffion a Lois); 2, Gwen a Ffion; 3, Gwion a Rob. **Parti bl. 1, 2 a 3:** 1, Parti Zoe a Parti Berwyn. **Bl. 4, 5 a 6:** 1, Tapscaliwns; 2, Tŷ'r Ysgol. **Tlws Llefaru Ysgol Gynradd:** Lois Hughes.

CERDD. Bl. 7, 8 a 9: 1, Elen Robinson; 2, Rhian Williams. **Bl. 10-13:** 1, Eleri Robinson; 2, Bethan Williams. **Piano bl. 7, 8 a 9:** 1, Ifan Rowlands; 2, Iolo Ellis. **Bl. 10-13:** 1, Caryl Owen. **Offeryn heblaw piano 7-13:** 1, Dewi Griffiths; 2, Eleri; 3, Bethan; 4, Ifan. **Tlws Cerdd** (Cwpan coffa Mrs Joan Ffoulkes): Eleri. **Tlws Offeryn** (Cwpan Coffa John M. Williams): Dewi.

LLEFARU. Bl. 7-13: 1, Eleri; 2, Caryl. **Adrodd drigri:** 1, Bethan. **Siarad Cyhoeddus:** 1, Eleri; 2, Caryl; 3, Meilyr Emrys. **Sgets:** 1, Y Feddygfa; cyd 2, Cerdded yn ei Chwsg; a Mynd a'r ci am dro; 3, Y Dollfa. **Tlws Llefaru:** Eleri Robinson.

LLÊN (Cynradd ac Uwchradd). Bl. 1: cyd 1, Ceri a Sasha; 2, James; 3, Sian. **Bl. 2:** 1, Berwyn; 2, Ifan; 3, Leah; 4, Elan. **Bl. 3:** 1, Manon; 2, Sion; 3, Carwyn; 4, Nia. **Bl. 4:** 1, Huw; cyd 2 Linzi a Tomos; 3, Meinir. **Bl. 5:** 1, Lois; cyd 2, Ffion a Nicol; 3, Cadi. **Bl. 6:** 1, Ffion Owen; 2, Gemma; 3, Gethin. **Bl. 7, 8 a 9 Taflen am Bethel:** 1, Owain Sion; 2, Sarah Morgan; 3, Enlli. **Bl. 7, 8 a 9 Stori:** 1, Owain Sion; 2, Euros Rees; 3, Rhian Williams. **Bl. 10-13:** 1, Meilyr Emrys; 2, Anest Williams; 3, Llinos Mair; 4, Bethan Fôn. **Brawddeg o'r gair 'Diolchgarwch':** 1, Mrs Maud Williams; 2, Mrs M. G. Williams; cyd 3, Mrs I. Butler, Mrs Llinos Hughes a Goronwy Jones. **Tlws Llenor Ysgol Gynradd** (Tlws y Gymdeithas Lenyddol i'w chadw am flwyddyn a thlws fechan i'w chadw – rhoddwr yn ddi-enw): Ffion Owen. **Tlws Llenor Ysgol Uwchradd** (Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen i'w chadw am flwyddyn a phlac, rhoddedig gan Goronwy Jones, Glan Gors, i'w gadw): Meilyr Emrys.

CELF. Arlunio Meithrin 1: 1, Eleri; 2, Llio; 2, Ruth. **Meithrin 2:** 1, Sion; 2, Robin; 3, Aled. **Bl. 0:** 1, Ceri Lewis; 2, Ffion Roberts; 3, Paul Lomas. **Bl. 1:** 1, Sion Hughes; 2, Ian M. Jones; 3, Dewi Emrys. **Bl. 2:** 1, Elan Rhys; 2, Leah Ann; 3, Bethan Griffiths. **Bl. 3:** 1, Manon; 2, Rhys; 3, Aled Hughes. **Bl. 4 (adran A):** 1, Tomos; 2, Rhian; **(adran B):** 1, Caryl; 2, Elen. **Bl. 5 (adran A):** 1, Ryan; 2, Ffion; **(adran B):** 1, Chris; cyd 2, Wayne ac Angharad. **Bl. 6:** 1, Meirion; 2, Emma C; 3, Ffion. **Bl. 7-9:** 1, Cheryl Morris; **Bl. 10-13:** 1, Bethan Fôn.

COLLAGE. Bl. 0, 2 a 3: 1, Sasha a Zoe Williams; 2, Ceri Griffiths; 3, Elan Rhys. **Bl. 3 a 4:** 1, Joe Randall; 2, Ian Morgan; 3, Huw Ffoulkes. **Bl. 5 a 6:** 1, Lois Hughes. **Bl. 7-9:** 1, Sarah Morgan.

FFOTOGRAFFIAETH. Bl. 3 a 4: 1, Rhys; 2, Nia Glyn; 3, Iona. **Bl. 5 a 6:** 1, Lois; 2, Ianto Fôn; 3, Ffion Williams. **Bl. 7-9:** 1, Bethan Fôn; 2 a 3: Anest Williams.

Cystadleuwyr brwd Bethel.

GWAITH CREADIGOL 3-D. Bl. 2 ac iau: 1, Dewi; 2, Aled; 3, Berwyn. **Bl. 3, 4, 5 a 6:** 1, Rhys; 2, Marc; 3, Huw. **PYPEDAU. Bl. 2 ac iau:** cyd 1, Elan a Marged. **Bl. 3, 4 5 a 6:** 1, Ffion Williams. **GRAFFEG CYFRIFIADUROL. Bl. 1-6:** 1, Elan Rhys; 2, Ceri Griffiths. **LOGO:** 1 a 2, Elan Rhys; 3, Manon Davies. **Tlws Celf Cynradd:** Dewi Ffoulkes a Joe Randall.

Hyfforddwyr y partïon oedd Jennifer Roberts, Lynn Lewis, Rhian Hughes, Iola Jones, Glenys Griffiths, Anita Owen, Manon Gwynedd a Rita Dauncey Williams. Iorwerth Williams fu'n gofalu am y sgetsus.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc am gystadlu ac i'r pentrefwyr am ddod i'w cefnogi. Diolch i Ysgol Uwchradd Brynrefail, Ysgol Gynradd Bethel, yr Ysgol Feithrin ac Adran yr Urdd ym Methel am bob cydweithrediad. Diolch am bob rhodd ariannol ac i'r rhai a drefnodd y raffl, i'r rhai fu'n gwerthu tocynnau, ac i bawb atebodd ein cais am nwyddau at y gwobrau.

Ffion Owen a Meilyr Emrys enillwyr y Tlysau yn Eisteddfod Bethel.

Yn rhifyn diwethaf yr Eco (Rhagfyr 1995) cyhoeddwyd erthygl gan EIRLYS WYNN TOMOS, Dinbych, yn trafod Cymeriad a Chefndir y diweddar Brifardd Gwilym R. Jones (Gwilym R). Dylid fod wedi egluro mai rhan o'i gwaith buddugol yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni oedd y portread a'r sgwrs ddychmygol â'r gwrthrych. Llongyfarchiadau iddi ar ennill y Gadair.

POB HWYL

I EISTEDDFODAU'R

FRO YN 1996

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cynhaliwyd yr Eisteddfod (dau gyfarfod) ar ddydd Sadwrn, 25 Tachwedd, yn y Ganolfan. Dyma'r canlyniadau:

CYFARFOD Y PRYNHAWN

CERDD. Unawd: cyn oed ysgol: 1, Meurig; 2, Huw; 3, Meleri a Siôn. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Elidyr; 2, Rhydian; 3, Ffion Haf. **Bl. 1 a 2:** 1, Iwan a Mererid; 2, Beth a Gwion; 3, Gemma, Caryl a Si'on. **Bl. 3 a 4:** 1, Elin; 2, Nia; 3, Guto a Trefor. **Bl. 5 a 6:** 1, Ioan; 2, Anna. **Cerdd Dant oed cynradd:** 1, Anna; 2, Guto. **Cân Werin oed cynradd:** 1, Ioan; 2, Anna; 3, Guto. **Parti canu oed cynradd:** 1, Parti Huw. **Cân Actol oed meithrin:** 1, Ysgol Feithrin Waunfawr. **Cân Actol oed cynradd:** 1, 'Caffi Sali Mali' a 'Tîm Pêl-droed Waunfawr'. **Parti Dawnsio Gwerin:** 1, Parti Lois. **Unawd recordydd bl. 3 a 4:** 1, Esyllt a Guto; 2, Trefor. **Unawd recordydd bl. 5 a 6:** 1, Ioan. **Parti recordydd ysgol gynradd:** 1, Pedwar yn y Grŵp. **Unawd piano hyd at flwyddyn 4:** 1, Beth; 2, Guto. **Unawd piano bl. 5 a 6:** 1, Ieuan; 2, Anna; 3, Ioan. **Unawd llinynnol oed cynradd:** 1, Elin. **Unawd offeryn chwyth (ac eithrio'r recordydd) oed cynradd:** 1, Iwan; 2, Sara a Sarah; 3, Ieuan ac Ioan. **Grŵp offerynnol:** 1, Parti Simba.

ADRODD. Oed cyn ysgol: 1, Siôn; 2, Dewi, Huw a Meleri; 3, Catrin a Meurig. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Helen a Sara; 2, Rhydian a Ffion Haf; 3, Amy. **Bl. 1 a 2:** 1, Owain; 2, Siôn; 3, Beth ac Iwan. **Bl. 3 a 4:** 1, Pryderi; 2, Elin. **Bl. 5 a 6:** 1, Anna. **Parti Adrodd oed cynradd:** 1, Parti Bod Hyfryd.

LLÊN. Bl. 3: 1, Emma; 2, Trefor a Pryderi; 3, Richard. **Bl. 4:** 1, Esyllt ac Elin; 2, Rhion; 3, Iwan Rhys a Lowri. **Bl. 5:** 1, Ieuan; 2, Sara; 3, Iwan; 4, Anna. **Bl. 6:** 1, Simon; 2, Gareth; 3, Fiona, Sarah a Thomas; 4, Dilwyn a Ben. **Dyfalu geiriau o'r geiriau 'Sglodion Tatws':** 1, Pryderi; 2, Elin; 3, Gareth, Sara a Ceirion.

ARLUNIO. Oed cyn ysgol: 1, Ilid; 2, Sianni; 3, Siôn. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Jade; 2, Emma a Tamsin; 3, Elidyr a Helen. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Mererid; 2, Kara a Marc; 3, Angharad a Liam. **Bl. 2:** 1, Kimberley; 2, Charline a Nia; 3, Arawn a Claire. **Bl. 3:** 1, Gavin; 2, Trefor a Wenna; 3, Mair. **Bl. 4:** 1, Eifion; 2, Elgan; 3, Ieuan; **Bl. 5:** 1, Sara; 2, Ieuan; 3, Ioan; **Bl. 6:** 1, Thomas; 2, Michael; 3, Fiona.

GWAITH LLAW. Dosbarth yr Hafod: 1, Ffion; 2, Rhydian ac Emma; 3, James a Jade. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Owain; 2, Gemma a Marc; 3, Gethin. **Bl. 2:** 1, Nia; 2, Caryl ac Arawn; 3, Steven. **Bl. 3:** 1, Emma; 2, Pryderi a Wenna; 3, Louise a Guto. **Bl. 4:** 1, Ieuan; 2, Dianne ac Eifion; 3, Esyllt. **Bl. 5:** 1, Ioan; 2, Anna a Timothy; 3, Julie. **Bl. 6:** 1, Thomas; 2, Fiona; 3, Seimon a Dilwyn.

COGINIO. Oed cynradd: 1, Iwan; 2, Dylan ac Anna; 3, Guto, Ioan ac Elin.

CYFARFOD YR HWYR

CANU. Bl. 7, 8 a 9: 1, Sioned Jones. **Unawd Gymraeg dros 19:** 1, Catrin; 2, Wmffra ac Alun. **Unawd Cân Werin dros 19:** 1, Wmffra; 2, Iola; 3, Catrin ac Alun. **Unawd Cerdd Dant bl. 7-19 oed:** 1, Ifan. **Unawdd Cerdd Dant dros 19:** 1, Catrin. **Deuawd dros 19:** 1, Eurwyn a Gwenda; 2, Catrin a Jina; Alun ac Wmffra. **Emyn dros 40:** 1, Alun; 2, Wmffra. **Offeryn chwyth (ac eithrio'r recordydd) bl. 7, 8 a 9:** 1, Aled Rhys; 2, Osian Elfryn; 3, Ifan Glyn. **Bl. 10, 11 ac o dan 19:** 1, Heddus; 2, Llio a Heledd. **Unawd piano bl. 7, 8 a 9:** 1, Ifan; 2, Elin; 3, Lowri. **Unawd piano bl. 10, 11 ac o dan 19:** 1, Llio; 2, Heledd a Manon. **Grŵp offerynnol bl. 7-19 oed:** 1, Heddus a Llio. **Grŵp Pop bl. 7-19 oed:** 1, 'Deilir'. **Grŵp Pop agored:** 1, Henaint; 2, Mam wnaeth gôt i mi. **Eitem Plygain:** 1, Jina, Eurwyn a Gwenda; 2, Wmffra, Alun ac Eurig Wyn. **Parti meibion, merched neu gymysg:** 1, Côr y Crempogau; 2, Parti Meibion a Parti'r Gororau.

ADRODD. Bl. 7, 8 a 9: 1, Lowri Glyn. **Bl. 10, 11 ac o dan 19 oed:** 1, Llio. **Darllen darn a roddwyd ar y pryd (dan 19):** 1, Llio; 2, Ifan; 3, Heledd a Lowri Glyn; 4, Lowri Huws, Osian a Heddus. **Darllen darn heb ei atalnodi (agored):** 1, Bethan. **Parti adrodd agored:** 1, 'Ni a Nhw'.

LLÊN. Bl. 7, 8 a 9: 1, Neb yn deilwng; 2, Steffan. **Brawddeg o'r gair 'Pompran':** 1, Glenys Jones. **Portread:** 1, Jina. **Parodi:** 1, Robart. **Llinell-goll:** Elwyn Griffith.

GWAITH LLAW. Model o wastraff: 1, Osian; 2, Sioned ac Elin; 3, Ifan Morgan. **Gwaith coed, metel neu unrhyw – bl. 7, 8 a 9:** 1, Helen; 2, Rhys; 3, Ifan Glyn. **Gwnïo bl. 7, 8 a 9:** 1, Lowri Glyn. **Gwau agored:** 1 a 2, Marian Wyn Jones. **Unrhyw fat (agored):** 1, Glenys Williams.

COGINIO. Bl. 7, 8 a 9: 1, Ifan Glyn. **Cyffaith (agored):** 1, Rhian; 2 a 3, Falmai. **Picl cymysg:** 1, Antur Waunfawr; 2, Glenys Williams; 3, Falmai. **Cacen sunsur:** 1, Jean; 2, Glenys; 3, Heulwen. **Cyffug:** 1, Jina; 2, Jill; 3, Falmai. **Cacen cnau Ffrengig a datys:** 1, Glenys; 2, Joy. **Amrywiaeth o dda-da:** 1, Glenys.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r beirniaid: Mr Edward Morus Jones (cerdd), Mrs Esyllt Maelor (adrodd a llên), Mr Islwyn Jones (arlunio a chelf), Mrs Pat Jones (gwyddor tŷ a gwaith llaw), a Mrs Ann Elfryn (arlunio); i'r llywyddion, Mr Huw Ynyr a Mrs Margaret Owen; i'r cyfeilyddion Mr Iwan Ellis a Mrs Jina Gwyrfai; ac i'r arweinyddion Mrs Nan Roberts, Mrs Cadi Jones, Mr Norman Williams, a Mr Eurig Wyn. Diolch hefyd i bawb arall a fu'n helpu i sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod.

PA UN YW CYSGOD RWDOLFF

Fedrwch chi ddarganfod yr wyth gwahaniaeth rhwng y ddau lun?

LLIWIO'R PARSELI

Mae Catrin wedi gosod ei pharseli mewn pentwr ar y llawr. Mae pob un wedi ei lapio mewn papur o liw gwahanol. Fedrwch chi eu lliwio'n gywir? Dyma gliwiau i'ch helpu:

1. Mae'r parsel melyn ar ben yr un gwyrdd.
2. Mae pedwar parsel rhwng yr un du a'r un gwyn.
3. Un parsel yn unig sydd rhwng yr un du a'r un gwyrdd.
4. Mae'r parsel pinc ar ben yr un glas.
5. Nid yw'r parsel coch ar ben yr un glas.



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Cadlanciau Urdd St. Ioan a gofrestrwyd yn Eglwys Crist, Llandinorwig, nos Fawrth 28 Tachwedd gyda'u swyddog Mrs J. M. Jones. Rhes gefn (chwith i'r dde): Bethan Wyn Jones, Alison Vanessa Jones, Julie Ann Jones; rhes ganol: Louise Mary Malloy, Ffion Haf Jones, Clare Lloyd Williams; rhes flaen: Stephanie Clare Williams, Catrin Jane Parry, Tina Marie Taylir, Sinead Caroline Jones. Roedd Carol Ann Jones, Deiniolen, a Gethin Jones, Llanberis yn absennol pan dynnwyd y llun.

Eglwys Llandinorwig: Cynhaliwyd gwasanaeth Naw Llith a Charol nos Sul, Rhagfyr 17, am 5 o'r gloch, yng ngofal y Parchg Tegid Roberts.

Noswyl y Nadolig, am 11.30 o'r gloch, gweinyddir y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Tegid Roberts. Croeso cynnes i bawb. Dymuna'r wardeiniaid Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda i bawb.

Llongyfarchiadau i Elfed M. Morris, Llechwedd, ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd o dan 16 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, ac hefyd am ennill y gwpan am y perfformiad gorau o dan 16 oed.

Diolch: Dymuna Hugh Jones, Rhes-y-faenol, ddiolch yn ddiffuant i'r llu cyfeillion a ymwelodd ei arddangosfa lluniau yn ystod y flwyddyn, ac am bob cefnogaeth hael tuag at Apêl Ymchwil Cancr. Diolch hefyd am bob cyfarchion a'r sylwadau caredig am y rhaglen deledu 'Hel Straeon'. Dymuna flwyddyn newydd dda, heddychol i bawb.

Urdd St. Ioan: Cynhaliwyd seremoni Cofrestru Cadlanciau yn Eglwys Crist, Llandinorwig, nos Fawrth, 28 Tachwedd. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parchg Tegid Roberts. Cofrestrwyd deuddeg o gadlanciau — un ar ddeg o Ddeiniolen ac un o Lanberis — gan gomisiynydd Gwynedd Mr W. H. R. Lewis. Cyflwynodd swyddog cadlanciau Gwynedd, Mrs Gwennan Watkins, dystysgrifau i'r cadlanciau a thlws i'r cadlanc Joseph Jones am wneud dros gant o oriau gwirfoddol. Rhoddwyd croeso i'r mudiad i un ar ddeg o 'Badgers' gan Mrs Mair Jones, cyd-gysylltydd 'Badgers' Gwynedd. Cyflwynwyd tariad gan Mr a Mrs David Coles Jones er cof am ei dad, Mr Griffith Thomas Jones. Roedd Griffith Jones yn arolygwr Urdd St. Ioan yn Neiniolen am flynyddoedd lawer hyd ei ymddeoliad yn 1980 pryd y daeth yn lywydd y mudiad. Cyflwynwyd y darian i Bethan Wyn Jones gan gyn-gomisiynydd Gwynedd, Mrs E. A. Jones, am ei phresenoldeb yn y dosbarthiadau a chyda'r oriau mwyaf yn y gwaith gwirfoddol 1994-95.

Cheralynn Wilcox a dderbyniodd anrheg ar ei hymddeoliad o ofalu fod y plant yn croesi'r ffordd yn ddiogel.

Tarian Coffa Mr Griffith Thomas Jones O.B.St.J., yn cael ei chyflwyno i Bethan Wyn Jones gan cyn-gomisynydd Gwynedd, Mrs E. A. Jones, SRN, QN, CStJ.

Apêl Eisteddfod Gwaun Gynfi: Bu'n rhaid gohirio cyfarfod cyffredinol yr Eisteddfod, nos Fawrth, 28 Tachwedd, oherwydd mai nifer fechan iawn o'r ffyddloniaid a ddaeth i'r cyfarfod. Bwriedir ei gynnal **nos Wener, 12 Ionawr 1996,** yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. **Os yw'r Eisteddfod i'w chynnal mae'n hanfodol bod cynrychiolaeth deilwng yn y cyfarfod hwn.**

Y Ganolfan: Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol y Ganolfan nos Fawrth, 5 Rhagfyr, ond siomedig iawn oedd ymateb yr ardalwyr eto eleni. Er ei bod yn hollol amlwg, oddi wrth y ffigurau y defnydd a wneir o'r Ganolfan, pa mor allweddol ydyw i'r gymuned, nid oedd digon o gynrychiolwyr y gwahanol fudiadau yn bresennol i ddewis pwyllgor rheoli. O'r herwydd bwriedir cynnal cyfarfod cyffredinol arall **nos Fawrth, 23 Ionawr 1996,** yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. **Os na fydd cynrychiolaeth deilwng bydd dyfodol y Ganolfan yn y fantol.**

GWOBR I'R YSGOL

Plant yr ysgol yn derbyn gwobr o £200 mewn seremoni yng Nghonwy. Cafwyd y wobr yng nghystadleuaeth y Gymdeithas Cefn Gwlad a'r CRS, am waith celf a wnaed yn cynnwys elfen cadwriaethol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112
● Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
● Prisiau arbennig i bensiynwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
Teganau, Cardiau
Melysion
Anrhegion
Cacennau
Nadolig a
Bara Brith Traddodiadol
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DWY YSGOL YN CYNNAL ARDDANGOSFA

Gwahoddwyd dwy ysgol leol — Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, ac Ysgol Cwm-y-glo — i drefnu Arddangosfa o waith crefft y plant yn Amgueddfa Eryri yn Llanberis dros y cyfnod cyn y Nadolig. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd y gwaith yn werth ei weld, ac ôl llafur mawr y disgyblion a'u hathrawon arno.



Rhan o arddangosfa Gwaun Gynfi.

Rhai o blant Deiniolen efo'u model o chwarelwr.

Tylluan Llwyncoed?

Murlun Siôn Corn Ysgol Cwm-y-glo.

Gwaith plant Gwaun Gynfi.



Ffenestri lliw plant Cwm-y-glo.

Poteli amryliw Cwm-y-glo.

★ Tacsi
★ Maes Awyr

CABS ERYRI

Yfwch chi
Gyrrwn ni
y Nadolig hwn

Ffôn: (01286) 871049 :: (0831) 429970 (symudol)
neu ffoniwch ni AM DDIM ar
National Cabline (Freephone) 0800 123 444
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Y BOLGI BACH

Mae Gareth Roberts o Crigyll, Llanrug, yn siŵr o helpu ei fam gyda'r coginio y Nadolig hwn. Mae o wedi cael digon o bractis, gan mai ef yw un o gyflwynwyr a chogyddion rheolaidd 'Y Bolgi Bach', rhaglen goginio i blant sy'n cael ei darlledu ar hyn o bryd ar S4C. Cafodd y gyfres ei recordio gan gwmni Llun y Felin yn eu stiwdio newydd yn y Capel Mawr, Llanrug. Handi iawn i Gareth, gan ei fod yn byw ddim ond tafliad sosej o'r stiwdio!

Bydd rhaglen arbennig o'r 'Bolgi Bach' ar S4C y Nadolig hwn a bydd rhaglen feithrin 'Migmas' yn cael ei recordio yn Stiwdio Capel Mawr yn y flwyddyn newydd.

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

W. J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI — GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Service Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen oddi wrth **Bryn a Kathleen**
Am eich **ANGHENION ADEILADU** mawr a bach **MASNACHWYR A "D.I.Y."** am **BRISIAU CYSTADLEUOL**



BRYN
(B & K Williams)
Yr Hen Ysgol Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 672898 (dydd)
Caernarfon 676285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CABS LLANRUG
GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
Ffôn: Caernarfon
675951
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard , Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon: 672790

AR AGOR: 7am - 10pm wythnos; 8am - 10pm Sul
Oriau Nadolig: Ar agor bob diwrnod heblaw Dydd Nadolig
Gwyl San Staffan (Boxing Day) a Dydd Calan, Ionawr 1af, 8am - 2pm , 4pm - 8pm

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Gwella: Dymunwn adferiad buan i Mrs Maureen Williams, Bryn Llan, wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hefyd Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Marwolaeth: Bu farw Mr Cecil Williams, Hafan Elan, ddydd Iau, 7 Rhagfyr. Bu'n gofalu yn dyner am ei wraig Dilys am amser hir a bydd colled fawr iddi hi ac i Barbara, Cliff a'u teuluoedd.

Hefyd bu farw Mrs Barbara Roberts, Bryn Gro. Oherwydd ei anhwylder bu'n cartrefu gyda'i mherch, Marina, a'i wyrion Bryn a Dewi. Cafodd ofal mawr a charedig ganddynt a bydd colled iddynt hwythau ynghyd â'r plant eraill, Eveleyn, Gwilym a Nowie.

Bu farw Mrs Sarah Dilys Edwards, chwaer annwyl Mrs Naomi Griffiths, Bro Rhythallt, a Mrs Annie Ceinwen, Copper Beeches, Ffordd Glanffynnon, a modryb i Pauline. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd i gyd.

Gwella: Dymunw wellhad buan i Mr Challoner, Erw Hywel. Derbyniodd lawdriniaeth fawr yn Ysbyty Manceinion, ond mae'n awr yn aros gyda'i chwaer ym Mhontrug.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Adrian Evans, Ffordd Glanffynnon, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Yr un yw'n dymuniadau i Alwena Williams, 1 Glanffynnon. Brysiwch wella.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir ag Ifan Roberts, Afon Rhos, yn dilyn marwolaeth ei fam ym Mrynrefail.

Enillwyr Raffl Fawr a dynnwyd yng Nghanolfan Hafan Elan, nos Wener, 24 Tachwedd, er budd Eglwys Sant Mihangel: 1, £30: Freda, Penrhiw; 2, £20: C. Jones, Llys Eiddon; 3, £10: Annie Jones, Eilionwy; 4, Ellen Morris, Bronallt; 5, Llinos Davies, 4 Corlan y Rhos; 6, Mrs E. Hughes, 23 Hafan Elan; 7, Mrs Birbeck; 8, 19 Minffordd Estate; 9, Mr H. Hughes, 1 Hafan Elan; 10, Y Berllan; 11, 20 Glanffynnon; 12, Dilwyn Jones, Llys Elen; 13, Joan Griffith, Pant Tirion; 14, Carys 675047; 15, Sara Jones, Harlech; 16, Llwyn; 17, Bysiau Arvonia; 18, Abbot, Craig Wen; 19, Mrs B. Thomas, 54 Nant y Glyn; 20, Bysiau Arfonia; 21, West, Pant Gwyn; 22, Thomas Arfon 672023.

Dymuna y Cyngor Plwyfol Eglwysig ddiolch i bawb a gyfrannodd at y Raffl, a'r gwerthwyr; hefyd y merched a ddarparodd y lluniaeth ar y noson Caws a Gwin. Diolch am eich cefnogaeth.

Parti Clychau'r Grug: Bu'r aelodau yn diddanu preswylwyr cartrefi'r henoed yn Llanrug a Chaernarfon gyda charolau hen a newydd. Diolchir i'r staff am y croeso cynnes a'r baned a'r lluniaeth.

Anfonir cofion annwyl at Carys Jones ac Eirlys wedi'u triniaethau yn yr ysbyty. Brysiwch wella genod, gwelwn chi yn 1996.

Yr Ysgol Gynradd: Erbyn hyn mae plant a staff yr ysgol yn mwynhau gwyliau'r Nadolig. Yn ystod wythnosau olaf y tymor bu pawb yn brysur yn ymarfer ar gyfer y cyngherddau Nadolig. Perfformiwyd cyngerdd adran y babanod, 'Yr Angel Fach' yn neuadd yr Ysgol nos Fercher, 13 Rhagfyr; ac ar lwyfan neuadd Ysgol Brynrefail perfformiwyd 'Y Seren' gan yr adran iau, nos Iau, 14 Rhagfyr. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ddwy noson.

Cynhaliwyd noson Bingo yn yr Ysgol, 30 Tachwedd, ac er bod llawer o'r pentref yn cwyno gyda'r ffliw cawsom noson ddifyr iawn gan godi £140 i gronfa'r Ysgol.

Bu timau nofio dan 10 a than 12 oed yr Ysgol yn cystadlu yn y Gala Nofio Cylch Arfon, Hydref 28 a Tachwedd 1. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm. Dyma rai o'r canlyniadau — ras gyfnewid bechgyn dan 12: 1af; ras broga dan 12: 1, Eifion Williams; 3, David Jones; dull rhydd dan 12: 1, Phillip Lynes; 3, Robin Thomas; ras pili-pala dan 12: 2, Robin Thomas; ras gymysg dan 12: 1, Eifion Williams. Llongyfarchiadau i Eifion am ddod yn drydydd drwy Gymru gyfan yn y ras froga yng Ngala Genedlaethol yr Urdd.

Dymuna pawb yn yr ysgol anfon eu dymuniadau gorau i Keith, mab Anti Margaret, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

Dyma enillwyr Clwb Cyfeillion mis Rhagfyr — £30: Sioned M. Hughes, Tŷ Canol, Rhosbodrual; £15: Richard Dylan Jones, 6 Ffordd Glanffynnon; £12: Cai Dyfan, Melin Crawia, Llanrug; £8: Menna Williams, Minffordd, Llanrug; £5: Anwen Smith, 13 Rhos Rhug, Llanrug.

Bethan, Arwel a Sam yn cael cyfle i archebu eu anrhegion yn Ffair Nadolig Plaid Cymru.

Plaid Cymru: Cynhaliwyd Ffair Nadolig Iwyddiannus nos Fercher, Rhagfyr 6, yn yr Ysgol Gynradd. Angela Roberts oedd yn agor y Ffair a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Ffion Haf. Cafodd Siôn Corn groeso mawr gan y plant ac yr oeddynt hwythau yn hapus iawn gyda'u anrhegion. Yn y cystadlaethau Sharon Blanchard a enillodd ar ddyfalu pwysau'r deisen, ac Andrea ar enwi'r ddol. Dyma enillwyr y brif raffl: 1, Beryl Griffiths, Llecyn; 2, Mrs Lewis, Madryn; 3, Gwenlli Puw; 4, Alwyn Williams; 5, Olwen Llywelyn; 6, Joan Griffith; 7, Dylan Williams. Mewn raffl arall enillodd Anwen Owen botel o win, ac Andrea degan meddal.

Enillwyr diweddaraf Clwb Cant y Blaid yw — Hydref: 1, Robert Jones, Egryn Villa; 2, Ann Thomas, Buarthau; Tachwedd: 1, Beti Peris Jones; 2, Phyllis Ellis; Rhagfyr: 1, Frank Green; 2, Mary Lloyd, Caernarfon.

Estynnwn ein cydymdeimlad fel cangen i Cliff Williams, Awelon, ar farwolaeth ei dad, Mr Cecil Wynne Williams, Hafan Elan.

Yng Nghanolfan Penisarwaun y bydd y cyfarfod nesaf, nos Fercher, Chwefror 7, am 7.30 o'r gloch, pan geir 'Sgwrs am Ewrop' gan y Cynghorydd Eurig Wyn, Waunfawr. Croeso cynnes i bawb.

Diolch: Dymuna Mrs Dora Jones, 21 Hafan Elan, Llanrug, ac o gartref preswyl Llys Eiddon, ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w chymdogion, ffrindiau a theulu. Diolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod y flwyddyn ac hefyd am roi eu hamser i ymweld â hi tra'n gaeth i'r tŷ.

'O deued pob Cristion i Fethlem yr awron
I weled mor dirion yw'n Duw . . .'

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Padarn Lake Hotel
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i chi oll
oddi wrth **TERRY**
VAL, LUCY A'R STAFF
LLANBERIS, Ffôn: 870260
Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
JACKIE, DAVE A STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG
LLE BRAF
A CHWMNI DIFYR DROS
WYLIAU'R NADOLIG

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
MECH-A-NICK (NICK WALTON)
4 STAD DDIWYDIANNOL BRYN AFON
CRAWIA, LLANRUG. Ffôn: 674884
TRWSIO CEIR • GWAITH MOT
TWNIO CRYPTON • WELDIO MIG

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
Y CO-OP
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672937
I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr ydych chi'n berchen arni.
Cofiwch fod DIFIDEND O 3c YN Y BUNT i aelodau'r gymdeithas
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1995
DYMUNIADAU GORAU AM 1996

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth Elaine, a staff
Elaine's
LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd Mercher i bensiynwyr
Nos Fawrth i ddynion
Colurio ar gyfer achlysuron arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math
o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: 675523

CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
NEIL A STAFF
y Siop Sglodion
Pontrhythallt
Llanrug
SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Maent yn Cofio

Yn dilyn fy sylwadau dan y pennawd 'Wyt Ti'n Cofio' yn rhifyn diwethaf o'r *Eco* daeth gwybodaeth i law am deulu William Williams y Go' o Lanberis gan Mrs Dilys Roberts, Dakota. Gan fod Mrs Roberts erbyn hyn mewn gwth o oedran mae'n cofio'n dda y miri a'r hwyl fyddai yn yr hen efail yn yng ngwaelod Stryd Ceunant. Roedd William Williams yn gapelwr mawr, yn flaenor yn Nant Padarn, ac yn ddyn diwylliedig iawn. Ef oedd awdur *Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis a'r Amgylchoedd.* Roedd hefyd yn ŵr rhadlon, yn llawn hwyl a direidi. Magodd dri o blant ac adnabyddid hwy fel Dora Go', Bobby Go', a Dafydd Go'. Yr olaf oedd tad Miss Alice Eileen Williams.

Byddai'r gof yn cadw moch yn yr ardd gefn a byddai'n eu lladd unwaith y flwyddyn ac mae Mrs Dilys Roberts yn cofio cael mynd a chig i dai yn Llanberis.

Derbyniais alwad ffôn gan Mr Gwilym Roberts hefyd. Mae o yn tybio mai awdur y gerdd 'Hen Efail Llanberis' oedd William Evans, Fron Goch, Llanberis. Disgrifiodd William Evans fel, 'gŵr Jane Elin ac yn saer maen hunan-gyflogedig. Roedd yn dipyn o hanesydd lleol a rhigymwr da ac yn un da am lunio llinell goll.' Byddai sawl cystadleuaeth llinell goll ym mhapurau'r *Herald* ers talwm a chofia Gwilym glywed ei fam ar sawl achlysur yn datgan, ''Rhen William Evans wedi ennill eto.' Collodd William Evans a'i briod ferch fach wyth oed yn 1925.

Llawer o ddiolch i'r ddau ohonoch am y wybodaeth.

ARWEL JONES, Penisarwaun

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Priodas: Llongyfarchiadau i David Kendall a Lucy Alcock, yr Hen Ysgol, ar eu priodas a gynhaliwyd yn swyddfa'r cofrestrydd yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Brysiwch wella: Dymunwn wellhad buan i Mrs Annie Griffiths, 5 Bro Glyder, sydd ar hyn o bryd yng nghartref ei merch, Eirian.

Rehoboth: Cynhelir y gwasanaeth Nadolig, pan fydd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan, yn y capel brynhawn Sul, Rhagfyr 24.

I'r Wladfa: Siwrnai ddiogel i Ted a Bev Anwyl, 3 Bro Glyder, pan fyddant yn teithio i Batagonia am wyliau ddiwedd mis Ionawr.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Jennie Searell Jones, ar farwolaeth ei llys-fam, Mrs Eileen Evans, Brynrefail (Gol.)

Owain a Dewi yn mynd i'r Ysgol

Dylan Morris Evans, Aaron Lloyd Jones, Gwen Williams a Nia Hughes o Ysgol Dolbadarn, Llanberis, gyda Owain Glyndŵr a Dewi Sant.

Mae modelau o ddau o enwogion Cymru wedi eu trosglwyddo i ofal Ysgol Dolbadarn yn Llanberis. Roedd y modelau o Dewi Sant ac Owain Glyndŵr yn rhan o arddangosfa Ynni Cymru yn Amgueddfa Eryri hyd at ddwy flynedd yn ôl. Ac ers i'r arddangosfa gael ei gosod o'r neilltu cadwyd y modelau yn storfa'r Amgueddfa.

Erbyn hyn wrth gwrs mae'r adeilad wedi ei werthu, ac mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn bwriadu canolbwyntio eu gwaith yn Llanberis yn adeiladau'r Amgueddfa Lechi. Roedd angen cartref newydd ar gyfer y modelau, a throsglwyddwyd hwy i ofal Ysgol Dolbadarn. Gobaith Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa, yw y bydd Ysgol Dolbadarn yn gallu gwneud cryn dipyn o waith gyda'r cymeriadau, a dysgu trwyddynt am gyfnodau pwysig yn hanes Cymru.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Rhagfyr 1, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, croesawodd y llywydd, Wyre Thomas, yr aelodau hynny oedd wedi dod yn ôl i'r rhengoedd wedi cyfnod o waeledd. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i ddau aelod allweddol, sef Ieuan Ellis Jones, trysorydd y Clwb, a Rol Williams, un o'i sefydlwyr. Hyderir y gellid eu gweld eto yn y gwmnïaeth yn y dyfodol agos. Cyflwynwyd siaradwr y noson gan Alwyn Evans, a chafwyd bywgraffiad diddorol ganddo o Cledwyn Williams. Traddododd hwnnw yn ei dro'n ddifyr am ei brofiadau fel heddgeidwad yn Lerpwl ac fel milwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn y Dwyrain Canol a Burma. Cyn y drafodaeth arferol o'r llawr, llongyfarchwyd y siaradwr ar gyrraedd oed yr addewid a deg(!) a thraddodwyd englyn pen-blwydd ffraeth gan gyn-gydweithiwr iddo, Geraint Lloyd Owen. Wedi maith holi a thrafod diolchwyd i'r siaradwr a phawb arall a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Selyf Noel Hughes. Wrth gloi'r cyfarfod estynnodd llywydd y Clwb gyfarchion y tymor i'r aelodaeth a chyhoeddodd bod y cyfarfod nesaf nos Wener, Ionawr 5, 1996, gyda'r Dr Eurwyn Lloyd Evans yn y gadair a John Roberts Williams yn annerch.

IOLO HUWS-ROBERTS

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Y Gymdeithas Undebol: Cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mr Norman Williams, Brynrefail, nos lau, 30 Tachwedd. Roedd ganddo gysylltiad â Dinorwig trwy ei ddiweddar frawd a fu'n brifathro ar ysgol y pentref. Soniodd am ei ddiddordebau — un ohonynt yn ymwneud â phaentio lluniau a'r diddordeb hwnnw wedi datblygu wedi iddo ymddeol o'r byd addysg. Llywydd y noson oedd Mrs Katie Lloyd Jones a mynegwyd y diolchiadau gan Mrs Alic Griffiths.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* ymddangos bydd y Gwasanaeth Carolau wedi'i gynnal, felly y dyddiadau nesaf i'w cofio yw 11 Ionawr — gyda Cyfarfod Gweddi dan ofal chwiorydd Capel MC Dinorwig. Yna ar nos lau, 25 Ionawr, cynhelir noson o dan y teitl 'Doniau Eisteddfodol' gyda Miss Nellie Wyn Jones yn llywyddu. Cofiwch ddod i gefnogi'r Gymdeithas.

Gŵyl y Geni: Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar noswyl y Nadolig (nos Sul, 24 Rhagfyr) am 11.30 p.m. yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Arweinir y gwasanaeth gan y Parchg Tegid Roberts. Croeso cynnes i bawb, o bob enwad, i ymuno yn y gwasanaeth hwn.

Ymchwiliad Cyhoeddus: Fe welwch fod gan y Cynghorydd Glyn Tomos lythyr yn y rhifyn hwn o'r *Eco* yn adrodd bod y Swyddfa Gymreig yn bwriadu cynnal ymchwiliad cyhoeddus i ystyried gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Llanddeiniolen i gais perchennog Cae Goronwy, Fach-wen i wyro'r llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio'i gartref. Yr apêl yn y llythyr yw am unrhyw gefnogaeth i baratoi'r gwrthwynebiad ar gyfer yr ymchwiliad.

Trefnydd Plygu: Dal i chwilio yr ydym am drefnydd plygu i'r pentref. Fe wnaed apêl fisoedd yn ôl ond nid oes neb wedi cynnig eu gwasanaeth. Meirion Thomas fu'n gwneud y gwaith ond ers sawl blwyddyn bellach mae o'n byw yn Neiniolen. Felly, beth amdani pobol Dinorwig? Golyga'r swydd fynd gyda'ch car i argraffdy Gwasg Gwynedd — unwaith y flwyddyn — i nôl copïau o'r Eco a dod a hwy i'r Ganolfan leol, a threfnu bod gwirfoddolwyr ar gael i wneud y gwaith plygu. Ni ddylai hyn fod yn ormod o faith ar neb. Os oes diddordeb gennych cysylltwch ag un o'r golygyddion mor fuan ag sydd bosib.

Nadolig Llawen i bob un ohonoch. Gobeithio y cewch iechyd da i fwynhau'r Ŵyl. Manteisiaf innau ar y cyfle hwn i anfon cyfarchion yr Ŵyl i Miss Lizzie Thomas a Mr Dafydd John Thomas (cyn-ohebydd y pentref i'r Eco) — y ddau bellach yn preswylio ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis.

Cerdd Goffa i W. H. Huws, (Tan y Buarth, Deiniolen)

gan John V. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont

William Huws yn colli'r dydd,
A phrint angau ar ei rudd;
Wedi brwydro yn y drin,
Ar ôl cystudd maith a blin.

Dyma ffrind, sef un gwerth chweil,
Heb 'run ffys, na stŵr, na steil;
Dyma'r bugail oedd yn glaf
Yn ei gell ar ddechrau'r haf.

'Roedd i hwn rhyw gamp a dawn,
Bochau'i ên yn grwn a llawn —
Wrth chwibanu ar ei gi;
'Roedd hwn yn dreinar mawr o fri.

Llygad craff am hwrdd neu oen,
Ond sy'n awr mewn byd di-boen;
Bref y ddafad oedd ei fyd
Ond mae Wil yn awr yn fud.

Llawn direidi, ac un ffraeth,
Ond mewn arch y mae mor gaeth;
Weithiau'n ddwys, ac weithiau'n drist —
Gyda pharch at Dduw a Christ.

Ymrysonwr yn y 'Nant'
Swllt neu ddau i'w roi i'r plant;
Trist ei fachlud, ola' drud,
Pan aeth Wil i arall fyd.

Yn y capel, yn y pnawn,
Roedd y seddau i gyd yn llawn;
Pawb oedd yno i ddangos parch
I'w weddillion yn yr arch.

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ *Porches* ★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth
ARFON A CARYS
SIOP CHIPS
TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG
676128

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth
ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 672156

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y
GLYNTWROG
LLANRUG
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth
BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY
LLANRUG
Ffôn: C'fon 672422

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
Ysgol Yrru Ofalus
★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth
Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Jen** a phawb yn
CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 676772
Diolch am eich cefnogaeth tra bu'r siop ar agor

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll
Defnyddir peiriant sugno i lanhau
Ffôn: Caernarfon 674781

Seiont Manor

Mae dau o fusnesau Llanrug wedi gweld newidiadau yn ddiweddar sy'n rhoi lle amlycach i'r iaith Gymraeg.

Cafodd Co-op y pentref arwyddion trawiadol newydd dwyieithog. Meddai Dylan Hughes, y rheolwr: *'Byddant yn atgoffa pawb fod yma groeso Cymreig bob amser, yn ogystal â'n bargeinion arferol.'*

Co-op Llanrug yw'r unig enghraifft ar ôl bellach o Gymdeithas Gydweithredol sy'n annibynnol o'r Mudiad Co-op Prydeinig. Gan ddilyn eu cwys eu hunain maent wedi dathlu eu canfed pen-blwydd y llynedd tra bo Co-op eraill — gan gynnwys Llanberis — o fewn y mudiad canolog, wedi gorfod cau eu drysau am byth.

Go brin y byddai sefydlwyr Co-op Llanrug wedi medru amgyffred llwyddiant y gŵr busnes amryddawn Richard Branson y mae ei gwmni Virgin bellach yn berchen ar Westy'r Seiont Manor. Mae enw Virgin yn amlwg yn y meysydd awyrennau, recordiau a hyd yn oed ddiodydd Cola, ar draws y byd ond eu dymuniad yn y Seiont Manor yw rhoi pwyslais cynyddol ar wasanaethu cwsmeriaid lleol.

Arwydd amlwg o'r dymuniad hwnnw yw penodi rheolwr a dirprwy-reolwr rhugl eu Cymraeg. Yn hannu o'r Parc, ger Y Bala, mae gan y rheolwr cyffredinol, Eleri Llwyd-Jones, brofiad helaeth iawn yn y diwydiant gwestai. Treuliodd 13 mlynedd yn gweithio i'r grŵp Hilton International yn Llundain, Genefa a Strasburg gan ennill anrhydedd 'Rheolwr Bwyd a Diod y Flwyddyn' cwmni Hilton yn 1992-93. Cyn dychwelyd i Gymru roedd yn

Eleri a Simon o'r Seiont Manor.

reolwraig bwyd a diod yng ngwesty'r Regent Four Seasons yn Llundain, lle'r oedd yn gyfrifol am 160 o staff.

Bellach mae'n byw yng Nghaeathro, ac meddai wrth Eco'r Wyddfa: *'Rydw i wrth fy modd yn cael dychwelyd i Gymru i weithio ac yn awyddus i'r Seiont Manor fod yn rhan o'r gymdeithas leol. Nid llefydd ffurfiol a stiff ydi gwestai Virgin. Yma mae'r bwyd, fel y croeso, yn gartrefol a'r Seiont Manor yn lle delfrydol i fwynhau cwmni da.'*

Y dirprwy-reolwr newydd yw Simon Sutherland, sydd â chysylltiadau teuluol â'r ardal. Addysgwyd yn Ysgol Dyffryn Nantlle a Choleg Llandrillo a bu'n gweithio yn America, De Affrica, yr Alban a De Cymru cyn ymuno â Virgin fel rheolwr bwyd a diod yn Llanrug.

Dyrchafwyd dau arall sy'n siarad Cymraeg i swyddi rheoli yn y Seiont Manor — Beth Williams o'r Bala yn bennaeth y dderbynfa; a Garry Jones o'r Groeslon yn rheolwr Bwyty Llwyn y Brain. Bu ef yn gweithio ar y llong QE2 gan deithio rownd y byd wyth gwaith.

Co-op Llanrug ar ei newydd wedd.

COFIWCH ANFON PWT O NEWYDDION AM DDIGWYDDIADAU'R NADOLIG ERBYN Y RHIFYN NESAF

Coleg Menai yng Nghaernarfon

Ddydd Gwener, Rhagfyr 8, agorwyd canolfan newydd Coleg Menai yn 12 Stryd y Plas, Caernarfon. Am flynyddoedd bu'n rhaid i bobl Caernarfon a'r cymunedau cyfagos oedd yn chwilio am gyfleoedd addysg neu hyfforddiant deithio i Fangor er mwyn cyflawni eu hamcanion.

Ers mis Medi mae'r sefyllfa wedi newid — yn awr mae ymron i 300 o fyfyrwyr o gymunedau Caernarfon, Llanberis, Pen-y-groes a chyn belled â Chricieth wedi cofrestru ar gyfer amrediad o gyrsiau yn Stryd y Plas. Mae myfyrwyr o 16-60 mlwydd oed yn awr yn astudio pynciau yn amrywio o Fusnes neu Gyfrifiaduro, Mathemateg neu Seicoleg hyd at Sbaeneg neu Gymraeg. Mae llawer o unigolion sydd wedi bod y tu allan i addysg ers blynyddoedd yn awr yn dychwelyd at ddysgu ac yn ennill sgiliau newydd.

Mae'r ganolfan hon yng Nghaernarfon yn rhan o bolisi Coleg Menai o beri bod addysg a hyfforddiant ar gael i holl aelodau'r gymuned ar amseroedd ac mewn lleoedd sy'n gweddu i'r dysgwyr. Mae'r coleg ar hyn o bryd yn cynnig hyfforddiant ar 2 safle ym Mangor, ar 2 safle yn Llangefni, safle ym Mharc Menai ac un yng Nghaergybi. Mae agor Canolfan Caernarfon yn gam arall mewn

darparu rhaglenni hyfforddi o ansawdd uchel yng Ngogledd-Orllewin Cymru.

Cynhelir cyrsiau yn ystod y dydd a chyda'r nosau, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn arwain at gymwysterau sy'n gwella'r rhagolygon o gyflogaeth neu ddilyniant i gyrsiau eraill. Am fanylion am y cyrsiau a gynigir ar hyn o bryd a gGalwch i mewn i 12 Stryd y Plas, neu ffoniwch (01286) 673450 (9 a.m. - 4 p.m. Llun - Gwener).

Pêl-droed i'r genod

gan Catrin Lowri, Waunfawr

Dechreuodd fy niddordeb mewn pêl-droed pan oeddwn i'n ddim o beth. yn aml iawn ar benwythnosau roeddwn yn cael y cyfle i fod yn fascot i'r tîm y chwaraeai fy mam iddo. Ar y pryd roeddwn yn byw yn yr Almaen, ac roeddwn yn cael fy nylanwadu gan bêl-droed, gan fod fy nhad a fy mam yn chwarae i dimau lleol.

Yn yr ysgol gynradd, rhaid oedd ymuno yn y gêm. Ar brydiau amharod iawn fyddai'r bechgyn i fy nerbyn i'w gêm nhw! Braf yw cofnodi fod y rhagfarn hwnnw wedi hen ddiflannu. Braf nodi bod merched o fro'r Eco yn chwarae yn rheolaidd a rhai wedi dod o fewn cyrraedd i'r tîm cenedlaethol.

Dechreuais chwarae i dîm pêl-droed pentref Waunfawr. Rwy'n deall bod tîm wedi cael ei sefydlu yno unwaith eto. Wedi dod i'r coleg rwyf wedi ail-gydio yn y gêm. Mae criw brwdfrydig yn y coleg a'r tymor yma mae mwy o sglein ar ein perfformiadau - wedi ein tymor cyntaf y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn hyn rydym yn bedwerydd yn y tabl.

Diolch i Catrin am ymateb i'm cais am erthygl ganddi, a dymuniadau gorau iddi yn ei maes dewisedig. Llongyfarchwn ei brawd, Steffan Elidir, ar gael ei ddewis i dîm pêl-droed Arfon.

(Golygydd Chwaraeon)

YN EISIAU YN EICH ARDAL CHI
Siediau ar gyfer recordio
NOSON LAWEN i S4C
Gofynion: Llawr gwastad, clir.
Maint: 100" x 60' neu fwy.
Uchder:
14' neu fwy
Cysylltwch â:-
Cyn Ionawr 12fed
Bydd elw'r nosweithiau yn mynd tuag at achosion da lleol
tonfedd
TONFEDD CYF. • UNED 33 • CIBYN
CAERNARFON • GWYNEDD • LL55 2BD
☎ (01286) 676800 (01286) 676466

CYFARCHION NADOLIG
LLANRUG

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Ashley a Carolyn Wager
A STAFF
SIOP Y BONT
(SNOWDON STORES)
Pontrhythallt
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon 674472

BWYTY-LLWYN-Y-BRAIN

Restaurant

NOSON BURNS
Pryd Traddodiadol Albanaidd
26 Ionawr, efo cerddoriaeth
£21.95 yr un

GŴYL SANT FFOLANT
Cinio Nos Fercher, 14 Chwefror
£23.00 yr un, efo anrheg i'r ferch a'r bachgen

I sicrhau lle, ffoniwch
(01286) 673366
Y Gwesty Seiont Manor Hotel, Llanrug,
Caernarfon, Gwynedd. LL55 2AQ

Virgin HOTELS LIMITED

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng

NGHARTREF HENOED

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

ORIEL PLAS GWYN
Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle.
Prisiau rhesymol.
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid lleol.

Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (0286) 672619
Richard S. Humphreys
Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda

GAREJ HAFOD

LLANRUG PEUGEOT **FFÔN: 673372**

YR 806
Y CAR MWYAF AMRYDDAWN A GYNHYRCHWYD GAN PEUGEOT

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
***John Trevor** a'i deulu, a'r holl staff*

DEWCH ATOM AM FARGEN YN 1996

Parti Nadolig Pendalar

Unwaith eto cynhaliodd disgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail barti Nadolig i blant Ysgol Pendalar Caernarfon. Mae'r parti wedi ei gynnal ers blynyddoedd bellach a chafwyd digon o hwyl eleni eto. Fel y gwelwch o'r lluniau daeth Siôn Corn heibio eleni eto a rhannu anrhegion i'r plant. Diolch i bawb a helpodd i sicrhau bod y parti yn llwyddiant mawr.

Ydych chi deulu sy'n credu mewn sbort a sbri? Oes diddordeb 'da chi mewn cymryd rhan mewn rhaglenni sy'n darlledu ar **S4C** ym 1996? Os ydych chi am fentro, cysylltwch ag **Eleri** ar **(01222) 590355**, neu trwy lythyr i'r cyfeiriad canlynol:-

Ffilmiau Apollo
Canolfan y Cyfryngau
Croes Cwrlwys
Caerdydd. CF5 6XJ

Cysylltwch â ni nawr!!

ffilmiau APOLLO

Agor y Stiwdio

Cafwyd hanes y Stiwdio newydd a agorodd Dyfan ac Angela Roberts yn y Capel Mawr yn Llanrug yn rhifyn Tachwedd yr Eco. Bu'r agoriad swyddogol ar Dachwedd 4, a manteisiodd llawer o'r ardalwyr ar y cyfle i ymweld â'r Stiwdio yn y prynhawn agored y diwrnod hwnnw. Unwaith eto, dymunwn bob llwyddiant i'r fenter newydd hon, wrth gyhoeddi lluniau o'r diwrnod pwysig.

Dyfan Roberts
Huw Jones S4C
Dafydd Wigley AS
Dafydd Whiteside Thomas
ac Angela Roberts

YR URDD
CYLCH BANGOR / OGWEN
cynhelir
NOSON DWYNWEN
yn NEUADD JOHN PHILLIPS
nos Sadwrn, 27 Ionawr 1996
gyda'r
MONIARS
Tocynnau: £7 (yn cynnwys bwyd)
Cysylltir ag
EINIR WILLIAMS, Rhiwlas
neu
ANN IFANS, Penisarwaun

Plant Ysgol Gynradd Llanrug ar y llwyfan yn yr agoriad swyddogol.

'Dim gormod o gymeradwyaeth . . . rhag inni ddeffro Dafydd Whiteside!'

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Gwasanaethau'r Capel: Cynhelir gwasanaeth y Nadolig am 5.30 nos Sul, 24 Rhagfyr. Ni fydd gwasanaeth ar nos Calan. Disgwylir y pregethwyr canlynol ym mis Ionawr:

7: Parchg W. R. Williams (2)
14: Mr Glyn Owen, Llanwnda (2)
21: Parchg W. R. Williams (2)
28: Parchg H. Gwynfa Roberts (2)

Pwyllgor Cae Chwarae: Diolch i'r gefnogaeth a gafwyd gan y pentrefwyr i'r dynfa fisol mae'r pwyllgor wedi trefnu codi a goleuo'r goeden Nadolig ger sedd y pentref. Cynhaliwyd parti 'Dolig i'r plant oed ysgol gynradd ac i'r rhai iau yng Nglangwna. Yn ôl y traddodiad dosbarthwyd anrheg Nadolig i bob cartref sydd â phensiynwr(wyr) yn byw ynddynt. Dymuna'r pwyllgor Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb yn yr ardal.

Apêl yr Ŵyl Gerdd Dant: Er mwyn ceisio cyrraedd nôd cronfa leol yr ardal o £400 trefnir noson gyda Dafydd Iwan a'i Fand yng Nglangwna, nos Wener, 9 Chwefror. Gellir prynu tocynnau gan aelodau'r pwyllgor neu'r ffynhonellau lleol arferol. Cynhelir pwyllgor nos Fawrth, 23 Ionawr, am 7.30 yn y Capel.

Pwyllgor Cae Chwarae: Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Fercher, 17 Ionawr, am 8 o'r gloch ym Mryngwna.

Croeso: Perchennog newydd Frondeg yw Dafydd Morris, sy'n reolwr peiranneg sifil Gwynedd yn Dinas. Croeso nôl i'r pentref — roedd ei rieni yn arfer byw yn yr Erw Wen ers talwm.

Tynfa'r Pentref: Enillwyr mis Rhagfyr oedd — £40: Bethan Iwan, Carrog (1); £25: Liam Rowlands, 4 Rhesdai Glangwna (40); £15: Tony Griffiths, Annedd (50); £10: G. P. Jones, Bryn Eglwys (88). Yn ychwanegol tynnwyd gwobrau £10 ychwanegol ar gyfer y canlynol: Sarah Hughes, Brongwna; B. Davies, 7 Glangwna; R. Jones, Ger y Tŵr; A. Hughes, Perthi; I. Jones, Crud yr Awel; C. Evans, Llecyn Clyd; B. Roberts, Monfa; R. M. Roberts, 9 Bryn y Gof; Einir Roberts, 3 Erw Wen; Arfon Williams, Y Wern. Yn ogystal rhoddwyd hamper gan Mr Rhys Evans a'r enillydd oedd Frances parry, Bryngwna.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

Diwrnod Agored Cyngor Henoed Gwynedd

Cynrychiolwyr Côr Meibion Dyffryn Peris, Lleisiau Lliwedd, Hogia'r Wyddfa a'r Amgueddfa, yn cyflwyno elw cyngherddau a drefnwyd yn yr Amgueddfa yn ddiweddar i Robin Jones, Cyngor Henoed Gwynedd.

Mrs Megan Morris a Mrs Glenys Williams gyda Mr Gwilym Charles Williams o Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn Niwrnod Agored Cyngor Henoed Gwynedd a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
FRANCES A RAY
TAFARN
BRYNGWNA
CAEATHRO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GAREJ
CAEATHRO
Ffôn: 673096
M.O.T • TRWSIO CEIR
GWASANAETH
TORRI LAWR 24 AWR

CROESAIR Y NADOLIG



AR DRAWS

1. Gellir yn hawdd ddarganfod 2 ac 8 i lawr yn hon pan ddaw'r 9 ar draws (5)
6. Un nad yw 9 ar draws yn golygu dim iddo. (5)
9 a 19 ar draws. Cyfarchiad amserol. (7,5)
10. Gradd eithaf bychan. (5)
11. Seddau i ganu ynddynt? (5)
12. Un sy'n trin y 15 ar draws. (5)
13. Ia, y wrach sy'n ein gwella. (7)
15. Llestr drwg y Sais. (3)
17. **Gweler y nodiadau**
18. Mynd ar neges. (6)
19. Gweler 9 ar draws.
20. Yma, yn y tywyllwch, y cynhyrchir pibonwy a physt calch. (6)
22. Garlleg. (4)
24. Rhiant benywaidd Gwalia Wen, medda' nhw. (3)
25. Gweler 29 ar draws
26. Un goch a wisgir gan gyfaill y plant yn nhymor y 9 ar draws. (5)
27. Mae cerddor go iawn yn Arwel Gareth Jones. (5)
28. Mewn un o'r rhain y cafwyd y 9 ar draws cyntaf. (5)
29 a 25 ar draws. Y cyfarchiad sy'n dilyn 9 a 19 ar draws. (7,5,2)
30. Un ael sydd ei angen i gyfeirio'r saeth o'r bwa. (5)
31. Duw Ed sy'n datgan ... (5)

I LAWR

2. Gall un opera, heb y cyfarwyddyd i ddistewi, fod yn sur neu yn felys. (6)
3. Er fod y ferch yn swnio'n ddigon hamddenol, un wyllt ydi hi. (6)
4. Arglwydd hen ffasiwn. (3)
5. Y rhai sy'n rhoi'r caead ar waith yr adeiladwr. (5)
6. Gwenynen feirch. (7)
7. O'r gora, peidio cau. (4)
8. Un o'r rhain achosodd gur yn y pen i'r hen Newton druan. (6)
12. Ffetanau. (5)
13. Priod-ddull? Dim o'i gymysgu. (5)
14. A'i torri ei chanol wna merch ar ôl colli ei chariad? Na, dim cweit. (5)
15. Y rhai sydd wedi eu bendithio â'r awen. (5)
16. Helfa bysgod yn y carchar? (5)
18. Prinder yn nheyrnasiad Siarl neu Edward. (5)
19. Y gweithwyr. Byddin y blaid? (7)
21. Cartŵn o Ron gul. (6)
22. Un o'r un enw ag un arall! (6)
23. Trysorfeydd. (6)
25. Wynne wedi ei gorddi oherwydd 18 i lawr. (5)
26. Ceir taflen o blât wedi ei falu. (4)
28. Ein glôb ni. (3)

Fe welwch mai croesair mis Rhagfyr sy'n ail-ymddangos yn y rhifyn hwn o'r Eco, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, ni ymddangosodd y cyfarwyddiadau ynglŷn â chreu cliw cryptig i 17 ar draws yn y rhifyn diwethaf; nag ychwaith y dyddiad na'r cyfeiriad i'w yrru i mewn. Yn yr ail le, dydw i heb gael cyfle i greu croesair newydd!

Sylwch hefyd mai 'Cartŵn o Ron gul' yw'r cliw i 21 i lawr, ac nid 'Catŵn' fel yr ymddangosodd yn wreiddiol.

Lluniwch gliw cryptig i'r gair fydd yn ymddangos yn 17 ar draws ar ôl cwblhau gweddill y croesair, a'i yrru at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, i gyrraedd erbyn 22 Ionawr 1996.

Dyddiadur y Mis

RHAGFYR

24. Sul **(Noswyl Nadolig) DEINIOLEN a DINORWIG:** Gwasanaeth undebol yn Eglwys Crist Llandinorwig am 11.30 .m. Cymun Bendigaid.

25. Llun **(Dydd Nadolig) LLANBERIS:** Gwasanaeth undebol yn Capel Coch **am 9 o'r gloch.**
PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Gwasanaeth Cymun Bendigaid am 9 a.m.

27 Mercher **WAUNFAWR:** Parti Nadolig Clwb Pêl-droed Waunfawr — plant iau 4-6 p.m.; plant hŷn 6-8.30 p.m.

IONAWR 1996

5. Gwener **YR ARDAL:** Clwb Eryri — anerchiad gan Mr John Roberts Williams.

8. Llun **CWM-Y-GLO:** Sefydliad y Merched yn yr Ysgol Gymuned am 7.
DEINIOLEN: Cyngor Eglwysig — oedfa dechrau blwyddyn yn Llanberis am 7 p.m.

9. Mawrth **PENISARWAUN:** Yr Urdd — gêm chwilen.
LLANBERIS: Y Gymdeithas Lenyddol yn Capel Coch am 7 p.m. — Mr Hugth Hughes, Bethel.

11. Iau **DINORWIG:** y Gymdeithas undebol — Cyfarfod Gweddi.

15. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs gan Mr Gwilym Williams.
WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol — Mr R. Gwynn Davies — 'Hen Gymeriadau'r Waunfawr'.

RHODDION

£20: Teulu Rudkin, Llanberis.
£5: Mr a Mrs Sharpe, Bethel; Côr Lleisiau Lliwedd; Er cof am Robert Hughes, Llanberis, gan ei deulu.
£3: Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT
AA Specialist
RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30
Ffôn: Llanberis 870922
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Gwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Lin, John a phawb o'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

Nadolig Llawen i bawb ym myd y campau

CAE NEWYDD Y FRO

Roedd bore Sadwrn, Rhagfyr 9fed, yn ddiwrnod pwysig yn natblygiad chwaraeon y fro. Agorwyd y maes pob tywydd ar dir Ysgol Brynrefail gan Faer Arfon. Y mae yn adnodd penigamp ac yn cymryd ei le yn daclus ar dir yr ysgol. Cyfeiriodd y Maer at werthfawrogiad y cylch o barodrwydd y prifathro a llywodraethwyr yr ysgol i ryddhau y tir ar gyfer yr adeiladu. Partneriaeth a groesewir rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Bydd yr ysgol yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd ac fe fydd y maes ar gael i'w logi gyda'r nos. Gofynnir i mi nodi nad trwy'r ysgol mae llogi'r maes ond trwy gysylltu â Chanolfan Hamdden Caernarfon. Mae'r Cyngor yn gyson gyda'u prisiau ac wedi sicrhau mai'r un pris a godir am ddefnyddio'r maes hwn a'r adnoddau cyffelyb ym Mhen-y-groes a Bethesda. Mae datblygiad pwysig arall i ddod erbyn mis Ionawr. Fe adeiledir adeilad newid pwrpasol gyda chawodydd yn arbennig ar gyfer y maes pob tywydd. Hefyd gobeithir llogi rhywun yn rhan amser i fod yn gyfrifol am drefniadau llogi'r maes. Bydd adeilad portakabin pwrpasol ar dir yr ysgol i'r perwyl hwn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Arfon i'w ganmol am fentro ymlaen gyda'r cynllun a gostiodd yn agos i chwarter miliwn o bunnoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw fath o grant ar gyfer y fenter.

Mae llifoleuadau penigamp yn amgylchynu'r maes. Diolch i'r dechnoleg fodern mae'n bosib rheoli'r goleuadau yn ôl y gofyn gan oleuo rhan o'r maes yn unig os dymunir.

Y mae'r datblygiad hwn yn creu rhyw 'gornel' chwaraeon yn Llanrug. Mae cae yr ysgol ar gyfer pêl-droed, criced, athletau a hoci; yna'r cae pob tywydd. Mae campfa'r ysgol ar gael i'r campau dan do. Gyferbyn â'r ysgol mae'r cwrs golff newydd. Mae yna sôn am ganolfan bentref newydd ar y gweill fydd yn amrywio o neuadd i gapel. Gyda'r fath gyfleusterau ar gael onid yw'n amser gwych i feddwl am ein lefel ffitrwydd?

I ddathlu'r agoriad swyddogol cafwyd gêm hoci ryngwladol rhwng tîm dan 16 Ysgolion Cymru a thîm merched talaith Leinster, Eire. Roedd swyddogion y tîm Gwyddelig am imi bwysleisio y fraint a deimlent o gael dathlu'r achlysur ac roedd y croeso iddyunt o'r radd flaenaf. O holi swyddogion y ddau dîm siomedig oedd sylweddoli mai ychydig iawn o nawdd a dderbyniai y timau, gan fod aelodau y ddau dîm wedi cyfrannu o'u pocedi eu hunain i gymryd rhan yn y gêm.

Mae'r adnodd ar agor, felly chwi campwyr yr ardal, defnyddiwch ef. Beth am 'gêm bêl-droed fawreddog' fel rhan o'r agoriad swyddogol?

Llinos Williams, Iona Williams, Nia Watkin Jones, Rebecca Hall a Susan Thomas, genethod o Ysgol Brynrefail a oedd yn 'ball-girls' yn y gêm. Maent hefyd yn aelodau o garfan hoci ysgolion Gwynedd.

CEWRI'R CAE RAS

Howyn Jones, Eddie May a Bob Scott pan oeddynt yn aelodau o dîm Wrecsam.

Derbyniais y llun yma a dynnwyd pan aeth un o fechgyn y fro i'r byd pêl-droed proffesiynol. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o'r gwallt wedi diflannu oddi ar yr 'hen ben'! Mae'r mab erbyn hyn yn dilyn yn ôl troed y tad. Mae dau o'r tri yn y llun yn rheolwyr timau. Mae'r un ar y chwith yn rheoli tîm dan 15 Llanrug, tîm sydd yn ddi-guro hyd yma yn eu cynghrair. Mae'r un sy'n y canol, wedi cyfnodau o reoli Caerdydd a'r Barri, wedi symud i Torquay sydd ar waelod trydedd adran yr Endsleigh. Y trydydd, a'r talaf, yw Bob Scott. O edrych ar maint y tri byddai gwrthwynebwyr yn difarru os ceisient daro'r bêl yn uchel a disgwyl curo'r rhain!

Tîm dan 15 Llanrug cyn eu gêm yn erbyn Caernarfon United. Nid yw'r tîm wedi colli hyd yma y tymor hwn.

Y GÊM GYNTAF

Ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, chwaraewyd gêm hoci rhwng tîm -16 Cymru a thîm -16 Leinster, Iwerddon, i ddathlu agoriad swyddogol cae synthetig Cyngor Arfon yn Ysgol Brynrefail.

Roedd y chwarae yn ystod yr hanner cyntaf yn gyfartal iawn efo'r ddau dîm yn colli cyfleoedd da i sgorio. Sgoriodd rhif 5 tîm Leinster, Mary Berkery, gôl unigol wych yn fuan yn yr ail hanner. Derbyniodd y bêl yn ei hanner amddiffynnol, symudodd i fyny'r asgell chwith gan osgoi pob tacl, aeth â'rbêl i mewn i'r cylch saethu a sgoriodd. Sgiliau hoci ymosodol yn cael eu dangos ar ei gorau. Sgoriodd tîm Leinster un gôl arall pan fethodd cymru glirio'r bêl allan o'u cylch amddiffynnol yn ddigon cyflym. Er i dîm Cymru bwyso a phwyso, methu sgorio fu eu hanes.

Profodd y gêm fod y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gêm heddiw yn medru cael ei dangos a'i defnyddio ar ei gorau ar y math yma o gae. Mae'r ardal yn ffodus iawn, iawn o leoliad y cae. Bydd yn hwb i ddatblygu sgiliau chwaraeon yn yr ardal.

AELWEN JONES

Y Cynghorydd Richard Meirion Roberts, Maer Arfon, yn agor y cae newydd yn swyddogol.

CYDRADDOLDEB AR Y CAE

Mae'n siŵr mae'r datblygiad pwysicaf yn ddiweddar ym myd chwaraeon yn chwalu llawer o ragfarnau. Erbyn heddiw, ychydig iawn o gêmau 'bechgyn' neu gêmau 'merched' a geir. Mewn erthygl rai misoedd yn ôl bûm yn trafod y ffaith mai prin yw'r bechgyn sy'n chwarae hoci. Rwyf fi wrth fy modd gyda'r gêm ac yn edrych ymlaen at gêm staff flynyddol ag awch. Ar hyn o bryd mae achos diddorol yn ne Lloegr ble mae ysgol yn mynnu bod chwiorydd yn chwarae rygbi yn eu gwersi ymarfer corff. Mae pêl-droed merched wedi hen ennill ei blwy. Ar y llaw arall gwantan iawn yw criced i ferched. Ond yn rhyfedd iawn ma cynghrair criced i ferched gyda thair adran o wyth tîm yn Nulyn. Tybed mai'r datblygiad nesaf fydd cystadleuaeth cwbl agored? Mae llawer o gampau yn gweddu i hyn — golff, bowls, dartiau, gymnasteg, snwcer. Roedd cryn ddyfalu pwy fyddai'n olynu Arthur Emyr yng nghadair 'Sgorio' ac mae'r gyflwynwraig newydd yn broffesiynol iawn.

Rhyw bythefnos yn ôl roedd naw ohonom ar gwrs sylwebu pêl-droed dan ofal Alun Evans ym Mryn Meirion, Bangor. Yr oedd yn syndod sylweddoli cymaint o ddawn sydd ei hangen yn y gwaith — trin geiriau, ar lafar ac ar bapur, heb sôn am y wedd dechnegol. Nid peth hawdd yw adnabod chwaraewr na darganfod y gair cywir mewn sefyllfa 'fyw'. Yn ein plith roedd merch hawddgar sy'n fyfyrwraig yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Pan ddywedodd Catrin Lowri wrthyf mai o'r Waunfawr roedd yn dod, rhaid oedd gofyn am erthygl gan fod Catrin yn dilyn cwrs cyfathrebu a drama yn y coleg.